



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pwyllgor Archwilio**

**The National Assembly for Wales
Audit Committee**

**Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd
Securing the Future of Cardiff Bay**

**Cwestiynau 1-157
Questions 1-157**

**Dydd Iau 5 Gorffennaf 2001
Thursday 5 July 2001**

Aelodau o'r Cynulliad yn bresennol: Janet Davies (Cadeirydd), Alun Cairns, Jocelyn Davies, Ann Jones, Helen Mary Jones.

Swyddogion yn bresennol: Syr John Bourn, Archwilydd Cyffredinol Cymru; Frank Grogan, Swyddfa Archwilio Genedlaethol Cymru; Dave Powell, Swyddog Cydymffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Ceri Thomas, Swyddog Cydymffurfio Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Tystion: Jon Shortridge, Ysgrifennydd Parhaol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Steve Phillips, Is-adran Cynllunio Ariannol, Cynulliad Cenedlaethol Cymru; David Richards, Prif Swyddog Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Emyr Roberts, Is-adran Polisi Economaidd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Assembly Members present: Janet Davies (Chair), Alun Cairns, Jocelyn Davies, Ann Jones, Helen Mary Jones.

Officials present: Sir John Bourn, Auditor General for Wales; Frank Grogan, National Audit Office Wales; Dave Powell, Compliance Officer of the National Assembly for Wales; Ceri Thomas, Compliance Officer of the National Assembly for Wales.

Witnesses: Jon Shortridge, Permanent Secretary, National Assembly for Wales; Steve Phillips, Financial Planning Division, National Assembly for Wales; David Richards, Principal Finance Officer, National Assembly for Wales; Emyr Roberts, Economic Policy Division, National Assembly for Wales.

*Dechreuodd y cyfarfod am 2.01 p.m.
The meeting began at 2.01 p.m.*

[1] **Janet Davies:** Good afternoon. I welcome you to this session on 'Securing the Future of Cardiff Bay'. I will go through the apologies and substitutions first. Peter Law is excluded from the meeting due to his former membership of the Assembly Cabinet, as usual. Helen Mary Jones is substituting for Dafydd Wigley. I have received apologies from Alison Halford, but she does not have a substitute.

As I have said, we will take evidence today on 'Securing the Future of Cardiff Bay'. I invite the witnesses to introduce themselves.

Mr Shortridge: I am Jon Shortridge, the Permanent Secretary.

Mr Richards: I am David Richards, the Principal Finance Officer.

Mr Phillips: I am Steven Phillips, from the Financial Planning Division.

Mr Roberts: I am Emyr Roberts, from the Economic Policy Division.

[1] **Janet Davies:** Prynawn da. Croeso ichi i'r sesiwn hon ar 'Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd'. Af drwy'r ymddiheuriadau a'r dirprwyon yn gyntaf. Mae Peter Law wedi'i gau allan o'r cyfarfod am ei fod yn gyn-aelod o Gabinet y Cynulliad, fel arfer. Mae Helen Mary Jones yn dirprwyo ar ran Dafydd Wigley. Daeth ymddiheuriad i law oddi wrth Alison Halford, ond nid oes ganddi ddirprwy.

Fel y dywedais, byddwn yn derbyn tystiolaeth heddiw ar 'Sicrhau Dyfodol Bae Caerdydd'. Gwahoddaf y tystion i gyflwyno'u hunain.

Mr Shortridge: Jon Shortridge, yr Ysgrifennydd Parhaol, wyf fi.

Mr Richards: David Richards, y Prif Swyddog Cyllid, wyf fi.

Mr Phillips: Steven Phillips wyf fi, o'r Is-adran Cynllunio Ariannol.

Mr Roberts: Emyr Roberts wyf fi, o'r Is-adran Polisi Economaidd.

[2] **Janet Davies:** Witnesses may speak in either Welsh or English and translation equipment is available. We will have a short break around 3.15 p.m. or 3.30 p.m., depending on where we are with questions at that point. We will start now, as the sooner we start, the more time we will have for questions.

I address this question to Mr Shortridge. Looking at the arrangements for winding up the Cardiff Bay Development Corporation, before we consider in detail the Auditor General's report on the wind-up, I would like to consider the work completed by the corporation during its 13-year operational lifetime. During that period, the corporation was paid in excess of £500 million by the Welsh Office and, subsequently, by the Assembly. We can all see the development that has taken place outside. In your view, has the Welsh public received value for money from the £500 million invested?

Mr Shortridge: I think that it is still too early for anyone to give a fully concluded view on that matter but it is certainly my impression that the development is currently well on the way to being successful and being able to show positive value for money. I take quite a lot of assurance from what the Auditor General has said in the report, particularly in paragraph 12. Against the targets that it was set, the corporation did a very good job in its lifetime, in that it was well on the way to meeting most of them. I think that it is important, when everyone is considering an evaluation of the achievements of the development corporation, just to remember what south Cardiff was like when it inherited it. There has been an enormous transformation of a seriously contaminated and derelict part of the capital city.

[3] **Janet Davies:** You have mentioned how derelict and contaminated south Cardiff was. Do you believe that it was necessary to set up a development corporation to achieve regeneration? Was it always the intention that the powers and responsibilities would return to local democratic control eventually?

[2] **Janet Davies:** Caiff tystion siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg ac mae offer cyfieithu ar gael. Byddwn yn cymryd egwyl fer oddeutu 3.15 p.m. neu 3.30 p.m., yn dibynnu ym mhle y byddwn gyda'r cwestiynau bryd hynny. Fe ddechreuwn yn awr, gan mai po gynharaf y dechreuwn ni, mwyaf o amser fydd gennym ar gyfer cwestiynau.

Cwestiwn i Mr Shortridge yw hwn. O edrych ar y trefniadau ar gyfer dirwyn Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd i ben, cyn inni ystyried yn fanwl adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y dirwyn i ben, hoffwn ystyried y gwaith a gyflawnwyd gan y gorfforaeth yn ystod ei hoes weithredol o 13 blynedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, talwyd dros £500 miliwn i'r gorfforaeth gan y Swyddfa Gymreig ac wedyn gan y Cynulliad. Gallwn i gyd weld y datblygiad sydd wedi digwydd y tu allan. Yn eich barn chi, a yw'r cyhoedd yng Nghymru wedi cael gwerth eu harian am y £500 miliwn a fuddsoddwyd?

Mr Shortridge: Credaf ei bod yn dal i fod yn rhy gynnar i neb roi barn gwbl derfynol ar y mater hwnnw ond yn sicr, yr argraff a gaf fi yw bod y datblygiad yn argoeli'n llwyddiant ar hyn o bryd ac y bydd yn gallu dangos gwerth positif am arian. Cymeraf gryn dipyn o sicrwydd o'r hyn y mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi'i ddweud yn yr adroddiad, yn enwedig ym mharagraff 12. Yn erbyn y targedau a osodwyd iddi, gwnaeth y gorfforaeth waith da iawn yn ystod ei hoes, a mynd gryn ffordd tuag at gwrdd â'r rhan fwyaf ohonynt. Credaf ei bod yn bwysig, tra bo pawb yn ystyried gwerthuso'r hyn a gyflawnwyd gan y gorfforaeth ddatblygu, cofio'n union sut le oedd de Caerdydd pan y'i hetifeddwyd. Cafwyd trawsffurfiad anferth ar ran o'r brifddinas a oedd yn wirioneddol halogedig ac yn dadfeilio.

[3] **Janet Davies:** Yr ydych wedi crybwyll mor ddiffaith a halogedig yr oedd de Caerdydd. A ydych yn credu bod angen bryd hynny sefydlu corfforaeth ddatblygu i sicrhau adfywiad? Ai'r bwriad drwy'r amser oedd y byddai'r pwerau a'r cyfrifoldebau'n dychwelyd i reolaeth ddemocrataidd leol ar ddiwedd y dydd?

Mr Shortridge: The decision to establish the development corporation was a political decision taken in 1986-87. It was a decision which, at the time, was well in accordance with government policy. It was a very understandable and logical thing to have done for south Cardiff. In terms of what the ultimate intentions were, I cannot absolutely recall what might have been on the record at the time, but it was certainly our expectation as officials that once the basic transformation had been wrought, the land would largely, if not wholly, revert back to the local authority.

Mr Shortridge: Penderfyniad gwleidyddol a wnaethpwyd yn 1986-87 oedd y penderfyniad i sefydlu'r gorfforaeth ddatblygu. Yr oedd yn benderfyniad a oedd, ar y pryd, yn gwbl gydnaws â pholisi'r llywodraeth. Yr oedd yn beth dealladwy a rhesymegol iawn i'w wneud i dde Caerdydd. O ran beth oedd y bwriadau terfynol, ni allaf gofio'n union beth allai fod wedi'i gofnodi ar y pryd, ond yn sicr ein disgwyliad ni fel swyddogion oedd y byddai'r tir, ar ôl cyflawni'r trawsffurfiad sylfaenol, i raddau helaeth os nad yn gyfangwbl yn dychwelyd i'r awdurdod lleol.

[4] **Janet Davies:** Individual regeneration targets were set: you can see them, and the progress made against them, in paragraph 10 and figure 3. Do you believe that the targets are still fully achievable now that the corporation and its special funding are no longer in place? If so, when do you think they are likely to be met?

[4] **Janet Davies:** Gosodwyd targedau adfywio unigol: gallwch eu gweld, a gweld pa mor bell y llwyddwyd i'w cyflawni, ym mharagraff 10 a ffigur 3. A gredwch fod modd cyflawni'r targedau'n llawn, a'r gorfforaeth a'i chyllid arbennig bellach wedi mynd? Os felly, pa bryd y tybiwch y mae'n debygol y'u cyflawnir?

Mr Shortridge: I certainly think that they are largely achievable. I do not think that I would want to commit myself to saying that they will all definitely be achieved, but I think that they should all largely be achieved. In terms of timescale, we are still talking of five to 10 years before one can make a fair assessment of the actual achievement. It is certainly my hope and expectation as Accounting Officer that we will be undertaking a full and proper study in due course of the value for money of the redevelopment of Cardiff Bay, so that the Welsh public can be assured that this money has been well spent.

Mr Shortridge: Yn sicr yr wyf yn credu bod modd eu cyflawni i raddau helaeth. Ni chredaf yr hoffwn ymrwymo i ddweud y caiff pob targed ei gyflawni'n bendant, ond yr wyf yn meddwl y dylid cyflawni pob un i raddau helaeth. O ran amser, yr ydym yn sôn am bump i 10 mlynedd eto cyn y gellir gwneud asesiad teg o'r hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd. Yn sicr, fy ngobaith a'm disgwyliad i fel Swyddog Cyfrifo yw y byddwn yn gwneud astudiaeth lawn a chywir maes o law o werth-am-arian ailddatblygiad Bae Caerdydd, er mwyn gallu sicrhau'r cyhoedd yng Nghymru fod yr arian hwn wedi'i wario'n ddoeth.

[5] **Alun Cairns:** Mr Shortridge, I refer you to paragraph 13, which shows that, before it was wound up, the corporation calculated that £170 million a year was being returned to the public purse from investments made in the Cardiff Bay area. Are you content with the basis of that calculation, and do you believe that the annual figure has increased or decreased since the succession arrangements took effect?

[5] **Alun Cairns:** Mr Shortridge, cyfeiriai chi at baragraff 13, sydd yn dangos fod y gorfforaeth, cyn iddi gael ei dirwyn i ben, wedi cyfrifo fod £170 miliwn y flwyddyn yn cael ei ddychwelyd i'r pwrs cyhoeddus o fuddsoddiadau a wnaethpwyd yn ardal Bae Caerdydd. A ydych yn fodlon â sail y cyfrifiad hwnnw, ac a ydych yn credu fod y ffigur blynyddol wedi cynyddu neu wedi gostwng ers i'r trefniadau olynu ddod i rym?

Mr Shortridge: I have no reason to doubt the basis of the calculation. I think it is a calculation, or a figure, that one has to use

Mr Shortridge: Nid oes gennyf unrhyw reswm dros amau sail y cyfrifiad. Yr wyf yn meddwl ei fod yn gyfrifiad neu ffigur y

with care. It was the National Audit Office that chose to put this into its report. It is not a figure that I would use as a primary source for considering the overall value for money of the development.

[6] **Alun Cairns:** What figure would you use?

Mr Shortridge: I would wait until I had had my comprehensive study undertaken of the wider costs and benefits of the redevelopment.

[7] **Alun Cairns:** Figure 4 in the report shows an overview of the activities, projects, and so on, that would need to be taken on by a successor body. There are several unfinished projects on the list. Should any of these have been completed during the corporation's lifetime, and if so, why were they not finished?

Mr Shortridge: I am sure that we would have preferred it if more had been completed during the corporation's lifetime. However, I think that one has to recognise the sheer complexity of the task that the development corporation had before it. The sort of issues that it had to deal with and manage were such that I think it would be unreasonable to expect everything to be completed to time. Taken as a whole, I think that this list indicates that most of the key developments were either complete or well on the way to completion at the time that the development corporation was closed down.

[8] **Ann Jones:** First, I apologise for being late, Chair. My clock on the third floor obviously does not run on the same time as yours. I thought that I would be on time.

Were you satisfied with the way that the wind-up process progressed? Will you give us a flavour of the problems encountered during the process?

Mr Shortridge: I think that I can say that all of us as officials found the wind-up process a very difficult process. It caused us a lot of concern. It certainly did not progress as smoothly or as easily as we would have

mae'n rhaid ei ddefnyddio'n ofalus. Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a ddewisodd gynnwys hyn yn ei hadroddiad. Nid yw'n ffigur y byddwn i'n ei ddefnyddio fel prif ffynhonnell ar gyfer ystyried gwerth cyffredinol am arian y datblygiad.

[6] **Alun Cairns:** Pa ffigur fydddech chi'n ei ddefnyddio?

Mr Shortridge: Byddwn i'n aros hyd nes y byddwn wedi cael cwblhau fy astudiaeth gynhwysfawr o gostau a manteision ehangach yr ailddatblygu.

[7] **Alun Cairns:** Mae ffigur 4 yn yr adroddiad yn amlinellu'r gweithgareddau, y prosiectau, ac ati, y byddai angen i gorff olynol ymgymryd â hwy. Mae nifer o brosiectau anorffenedig ar y rhestr. A ddylid bod wedi cwblhau unrhyw rai o'r rhain yn ystod oes y gorfforaeth, ac os dylid, pam na orffennwyd hwy?

Mr Shortridge: Yr wyf yn siŵr y buasai'n well gennym pe buasai mwy wedi'i gwblhau yn ystod oes y gorfforaeth. Fodd bynnag, yr wyf yn meddwl fod yn rhaid cydnabod holl gymhlethdod y dasg a wynebai'r gorfforaeth ddatblygu. Yr oedd y math o faterion y bu'n rhaid iddi ddelio â hwy a'u rheoli yn gyfryw fel y byddai yn fy nhyb i yn afresymol disgwyl i bopeth gael ei gwblhau yn brydlon. Ar y cyfan, credaf fod y rhestr hon yn dangos fod y rhan fwyaf o'r datblygiadau allweddol naill ai wedi'u cwblhau neu'n agos at gael eu cwblhau ar yr adeg y cafodd y gorfforaeth ddatblygu ei dirwyn i ben.

[8] **Ann Jones:** Yn gyntaf, ymddiheuraf am fod yn hwyr, Gadeirydd. Yn amlwg nid yw fy nghloc i ar y trydydd llawr yn rhedeg ar yr un amser â'ch un chi. Yr oeddwn yn meddwl y byddwn yma mewn pryd.

A oeddech yn fodlon gyda'r modd yr aeth y broses ddirwyn i ben yn ei blaen? A roddwch chi flas inni o'r problemau a wynebwyd yn ystod y broses?

Mr Shortridge: Credaf y gallaf ddweud inni i gyd fel swyddogion gael cryn anhawster gyda'r broses ddirwyn i ben. Achosodd gryn bryder inni. Yn sicr, nid aeth yn ei blaen mor esmwyth nac mor hawdd ag y buasem wedi'i

wished. I make that as a factual observation. To balance it, I have to say that it was an incredibly complex and difficult process to organise; one for which the Welsh Office and then the Assembly were not actually primarily responsible. It was a very difficult exercise to manage and one which, from our perspective, did not go as smoothly as we would have wished.

[9] **Ann Jones:** Given the benefit of hindsight, which is something we all use, what would you, given your chance again, have done differently to facilitate the wind-up of the corporation?

Mr Shortridge: The basic model that one had was that the development corporation would be told when it was going to have to wind itself up and then be given responsibility for ensuring that the wind-up proceeded in an orderly way. The way to achieve that was, first, that it should produce a complete and detailed audit of all the assets and liabilities that it would have to transfer at the time of its demise. Secondly, it would need to know which bodies the successor bodies were going to be and which assets and liabilities should be transferred to those successor bodies. Thirdly, with those two elements, it would need to produce the section 165 agreements—the legal agreements effecting the transfer.

The lesson that we learned—and I have learned from this process—is that while that is fine in theory and a very sensible way of proceeding, in practice, given the scale of the issues involved and therefore the importance that the successor bodies attached to the transfer arrangements being satisfactory to them, there is a case for the Assembly itself—in this case Assembly officials—being much more closely and directly involved in managing the wind-up process. What this report records is that what happened in practice was that we as Assembly officials—and not just us as Assembly officials, but Assembly Ministers and Welsh Office Ministers before them—found that we were having to get much more closely involved in the process than had originally been envisaged, in order to facilitate outcomes in what were often very

ddymuno. Sylw ffeithiol yw hynny. Er mwyn cydbwysedd, rhaid imi ddweud ei bod yn broses anhygoel o gymhleth ac anodd i'w threfnu; ac yn un nad oedd y Swyddfa Gymreig ac wedyn y Cynulliad yn bennaf gyfrifol amdani mewn gwirionedd. Yr oedd yn ymarfer anodd iawn i'w reoli ac yn un, o'n safbwynt ni, na ddigwyddodd mor ddidrafferth ag y buasem wedi ei ddymuno.

[9] **Ann Jones:** Gyda'r gallu i edrych yn ôl, rhywbeth a wnawn ni i gyd, beth fydddech chi, o gael eich cyfle eto, wedi ei wneud yn wahanol er mwyn hwyluso dirwyn y gorfforaeth i ben?

Mr Shortridge: Y model sylfaenol ger ein bron oedd y byddai'r gorfforaeth ddatblygu'n cael gwybod pa bryd y byddai'n rhaid iddi ddirwyn ei hun i ben ac wedyn y rhoddid cyfrifoldeb iddi am sicrhau fod y dirwyn i ben yn digwydd mewn ffordd drefnus. I gyflawni hynny, byddai'n rhaid iddi, yn gyntaf, gynhyrchu rhestr gyflawn a manwl o'r holl asedau a rhwymedigaethau y byddai'n rhaid iddi eu trosglwyddo ar adeg ei dirwyn i ben. Yn ail, byddai angen iddi wybod pa gyrff fyddai'r cyrff olynol a pha asedau a rhwymedigaethau y dylid eu trosglwyddo i'r cyrff olynol hynny. Yn drydydd, gyda'r ddwy elfen hynny, byddai angen iddi lunio cytundebau adran 165—y cytundebau cyfreithiol sy'n gwireddu'r trosglwyddiad.

Y wers a ddysgwyd—ac yr wyf i wedi dysgu oddi wrth y broses hon—yw tra bod hynny'n iawn mewn egwyddor ac yn ffordd gall iawn o fynd ati, yn ymarferol, o gofio maint y materion dan sylw ac felly mor bwysig ydoedd i'r cyrff olynol fod y trefniadau trosglwyddo'n foddhaol iddynt hwy, mae achos dros sicrhau fod y Cynulliad ei hun—sef swyddogion y Cynulliad yn yr achos hwn—yn ymwneud yn llawer agosach a mwy uniongyrchol â rheoli'r broses ddirwyn i ben. Yr hyn a gofnodir yn yr adroddiad hwn yw mai beth ddigwyddodd yn ymarferol oedd ein bod ni swyddogion y Cynulliad—ac nid ni swyddogion yn unig, ond Gweinidogion y Cynulliad a Gweinidogion y Swyddfa Gymreig o'u blaen—yn canfod ein bod yn gorfod ymwneud yn llawer agosach â'r broses nag a ragwelwyd yn wreiddiol, er mwyn hwyluso canlyniadau mewn

difficult and complex negotiations. Therefore, in answer to your question, the one lesson that I have learned is that, if such things are to be done in future, the governing administration, which has the primary responsibility for ensuring a successful outcome, should have a fuller role in the process from the outset.

[10] **Ann Jones:** I turn to figure 7 on page 14 of the report, which shows the key dates in the wind up process. It is clear that much work had been carried out by the corporation in preparing for its wind-up. Even if the corporation had finished all of its capital projects during its lifetime, there was always going to be that requirement for ongoing revenue funding of certain items. Was the corporation ever in a position to negotiate effectively with the potential successor body, without the ability to commit the Assembly to the ongoing revenue commitments?

Mr Shortridge: I do not think that that was a particular difficulty in the negotiations. I think that there was always the recognition that, when assets and liabilities transferred, the necessary funding arrangements would go with them. Obviously, we, as Assembly officials—or Welsh Office officials—had to be involved in those discussions in order to provide assurance to each side in terms of the detail. However, the principle was always clear. You cannot have an orderly wind-up if the successor bodies do not have a reasonable expectation of having the necessary resources to go with the liabilities.

[11] **Ann Jones:** Do you think then that Welsh Office officials and, subsequently, Assembly officials, should have been more closely involved in the process from the time that a firm date for the wind-up had been announced in 1997?

Mr Shortridge: I think that that is the lesson that I described when I answered your earlier question. I think that what we have learned from this process is that while, theoretically, this is something that can largely be done bilaterally, in practice, there should be a greater recognition that Assembly officials, in

trafodaethau a oedd yn aml yn rhai anodd a chymhleth dros ben. Felly, i ateb eich cwestiwn, yr un wers a ddysgais yw, os bydd raid gwneud pethau o'r fath yn y dyfodol, y dylai'r corff llywodraethol, sydd â'r prif gyfrifoldeb dros sicrhau canlyniad llwyddiannus, gael rhan lawnach yn y broses o'r cychwyn cyntaf.

[10] **Ann Jones:** Trof at ffigur 7 ar dudalen 14 yn yr adroddiad, sy'n dangos y dyddiadau allweddol yn y broses ddirwyn i ben. Mae'n eglur fod llawer o waith wedi'i wneud gan y gorfforaeth i baratoi ar gyfer y dirwyn i ben. Hyd yn oed pe bai'r gorfforaeth wedi gorffen ei holl brosiectau cyfalaf yn ystod ei hoes, byddai'r gofyniad hwnnw am gyllid refeniw parhaus ar gyfer eitemau penodol yno o hyd. A fu'r gorfforaeth erioed mewn sefyllfa i negodi'n effeithiol gyda'r darpar gorff olynol, heb y gallu i ymrwymo'r Cynulliad i'r ymrwymadau refeniw parhaus?

Mr Shortridge: Nid wyf yn meddwl y bu hynny'n anhawster arbennig yn y trafodaethau. Yr wyf yn meddwl y cydnabuwyd erioed y byddai'r asedau a'r rhwymedigaethau a drosglwyddid yn cario'r trefniadau cyllid angenrheidiol gyda hwy. Wrth reswm, yr oedd yn rhaid i ni, fel swyddogion y Cynulliad—neu swyddogion y Swyddfa Gymreig—gymryd rhan yn y trafodaethau hynny er mwyn darparu sicrwydd i'r naill ochr a'r llall yn nhermau'r manylion. Fodd bynnag, yr oedd yr egwyddor bob amser yn glir. Ni allwch gael trefn wrth ddirwyn i ben os nad oes gan y cyrff olynol ddisgwyliad rhesymol o gael yr adnoddau angenrheidiol i fynd gyda'r rhwymedigaethau.

[11] **Ann Jones:** A ydych o'r farn felly y dylai swyddogion y Swyddfa Gymreig, a swyddogion y Cynulliad wedi hynny, fod wedi ymwneud yn agosach â'r broses o'r adeg pryd y cyhoeddwyd dyddiad pendant ar gyfer y dirwyn i ben yn 1997?

Mr Shortridge: Mae'n debyg gen i mai dyna'r wers a ddisgrifiais pan atebais eich cwestiwn cynharach. Yr wyf yn meddwl mai'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu oddi wrth y broses hon yw tra bod hyn, mewn egwyddor, yn rhywbeth y gellir ei wneud i raddau helaeth rhwng y ddwy ochr, y dylid yn

our case, should be much more closely involved in the process from the outset.

[12] **Ann Jones:** Thank you. I will press on with a few more questions. Paragraphs 20 to 22 in the report state that the final decisions regarding succession arrangements were made in March 1999 for the ongoing regeneration activity, and in October 1999 for the arrangements for the Harbour Authority. That was only 12 and six months respectively before the corporation was due to wind-up. Why were those key decisions not taken until late in the process?

Mr Shortridge: Essentially what we had was a very high level and major, complex negotiation, which was taking place between the development corporation on the one hand, and Cardiff City and County Council and the Welsh Development Agency on the other—there were certain other successor bodies but it was primarily those two. It was a negotiation that was facilitated by the National Assembly and the Welsh Office at both political and official level. The nature of negotiations is such that they have a natural tendency to go to the wire. Best practice from the earlier National Audit Office reports indicated that you needed two years to get these basic agreements in place, in order to secure an orderly transfer. However, the nature of the circumstances in which we found ourselves during this period, and the nature of the negotiations that were going on, meant that there was not agreement, until the dates that you indicated, on which bodies those key successor bodies would be. I think that there is a limit, and I think that you will understand that there is a limit, as to what, in these circumstances, officials can do to secure fundamental agreements of this nature.

[13] **Ann Jones:** I come to my last question. These key decisions had to be taken by the Welsh Office and then the Assembly because of the need to fund arrangements after the corporation had been wound up. So was the eventual timetable consistent with the successor arrangements being negotiated to provide long-term value for money for our Welsh taxpayers?

ymarferol roi mwy o gydnabyddiaeth i'r angen i swyddogion y Cynulliad, yn ein hachos ni, gael rhan lawer agosach yn y broses o'r dechrau.

[12] **Ann Jones:** Diolch. Af ymlaen gydag ychydig o gwestiynau eto. Noda paragraffau 20 i 22 yn yr adroddiad y gwnaethpwyd y penderfyniadau terfynol parthed trefniadau olynu ym mis Mawrth 1999 ar gyfer y gweithgarwch adfywio parhaus, ac yn Hydref 1999 ar gyfer y trefniadau ar gyfer Awdurdod yr Harbwr. Dim ond 12 a chwe mis oedd hynny cyn i'r gorfforaeth gael ei dirwyn i ben. Pam na wnaethpwyd y penderfyniadau allweddol hynny tan yn hwyr yn y broses?

Mr Shortridge: Yn y bôn yr hyn oedd gennym oedd negodi mawr, cymhleth ar lefel uchel iawn, a oedd yn digwydd rhwng y gorfforaeth ddatblygu ar y naill law, a Chyngor Sir a Dinas Caerdydd ac Awdurdod Datblygu Cymru ar y llall—yr oedd ambell gorff olynu arall, ond y ddau hynny oedd y prif negodwyr. Hwyluswyd y broses negodi gan y Cynulliad Cenedlaethol a'r Swyddfa Gymreig ar lefel wleidyddol ac ar lefel swyddogol. Rhan o natur trafodaethau negodi yw tuedd naturiol i fynd at ymyl y dibyn. Dan yr ymarfer gorau yn ôl adroddiadau cynharach y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, byddai angen dwy flynedd i roi'r cytundebau sylfaenol hyn yn eu lle, er mwyn sicrhau trosglwyddiad trefnus. Fodd bynnag, oherwydd natur yr amgylchiadau y cawsom ein hunain ynddynt yn ystod y cyfnod hwn, a natur y trafodaethau a oedd ar droed, ni chafwyd cytundeb, tan y dyddiadau a grybwyllwyd gennych chi, ar ba gyrff fyddai'r cyrff olynol allweddol hynny. Yr wyf yn meddwl fod pen draw, ac yr wyf yn meddwl y byddwch chi'n deall fod pen draw, ar yr hyn y gall swyddogion ei wneud yn yr amgylchiadau hyn i sicrhau cytundebau sylfaenol o'r math yma.

[13] **Ann Jones:** Dyma fy nghwestiwn olaf. Yr oedd yn rhaid i'r penderfyniadau allweddol hyn gael eu gwneud gan y Swyddfa Gymreig ac wedyn y Cynulliad oherwydd yr angen i ariannu'r trefniadau ar ôl dirwyn y gorfforaeth i ben. Felly a oedd yr amserlen yn y diwedd yn gyson â'r trefniadau olynu a oedd yn cael eu negodi i ddarparu gwerth am arian i'n trethdalwyr yng

Nghymru dros y tymor hir?

Mr Shortridge: Well, I think that this is the point at which I have to say that, despite the problems that we have discussed and will probably come back to, I think that the wind-up process was completed successfully. One of the conclusions of this report is that it was completed successfully. I think that, had there been more detailed comparisons with other urban development corporation wind-ups, you would have discovered that in other places there were very significant loose ends at the point of transfer. In the case of the Cardiff Bay Development Corporation, the National Audit Office has not found any significant loose ends. So I think that, despite all the problems that there have been, we managed to secure a successful outcome from this wind-up process and I pay credit to all those concerned, particularly in the Cardiff Bay Development Corporation. The staff in the development corporation had a particularly difficult time during that period.

[14] **Janet Davies:** Mr Shortridge, you referred briefly to the outcome, but we need to look a bit more closely at the outcome of the wind-up process. Alun would like to ask a few questions on that.

[15] **Alun Cairns:** Before I look at the outcome of the wind-up process, Janet, I have a few supplementaries to some of the questions that have been asked, if that is okay.

[16] **Janet Davies:** That is fine.

[17] **Alun Cairns:** In general terms, Mr Shortridge, will you tell us what safeguards or actions are in place to prevent any potential conflict of interest in relation to Ministers and the arrangements of the successor bodies, should the arrangements affect their constituencies?

Mr Shortridge: The basic arrangements on ministerial interests are set out in the Assembly's equivalent of the ministerial code. These are matters for Ministers themselves.

Mr Shortridge: Wel, yr wyf yn meddwl mai dyma'r pwynt lle mae'n rhaid imi ddweud, er gwaethaf y problemau a drafodwyd gennym ac y deawn yn ôl atynt yn ôl pob tebyg, fy mod yn credu i'r broses ddirwyn i ben gael ei chwblhau'n llwyddiannus. Un o gasgliadau'r adroddiad hwn yw i'r broses gael ei chwblhau'n llwyddiannus. Yr wyf o'r farn, pe cawsid cymariaethau manylach â phrosesau dirwyn i ben corfforaethau datblygu trefol eraill, y buasech wedi darganfod mewn manau eraill bod pethau arwyddocaol iawn heb eu datrys ar y pwynt trosglwyddo. Yn achos Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, ni chanfu'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol ddim byd arwyddocaol a oedd heb ei ddatrys. Felly yr wyf yn meddwl, er gwaethaf yr holl broblemau a gafwyd, inni lwyddo i sicrhau canlyniad llwyddiannus i'r broses ddirwyn i ben, a thalaf deyrnged i bawb a fu'n ymhél â'r peth, yn enwedig yng Nghorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Cafodd y staff yn y gorfforaeth ddatblygu amser arbennig o anodd yn ystod y cyfnod hwnnw.

[14] **Janet Davies:** Mr Shortridge, cyfeiriasoch yn fyr at y canlyniad, ond mae angen inni edrych ychydig yn fanylach ar ganlyniad y broses ddirwyn i ben hon. Hoffai Alun ofyn ychydig o gwestiynau ar hynny.

[15] **Alun Cairns:** Cyn imi edrych ar ganlyniad y broses ddirwyn i ben, Janet, mae gennyf ambell gwestiwn atodol i rai o'r cwestiynau a ofynnwyd eisoes, os yw hynny'n dderbyniol.

[16] **Janet Davies:** Popeth yn iawn.

[17] **Alun Cairns:** Mewn termau cyffredinol, Mr Shortridge, a wnewch chi ddweud wrthym pa fesurau neu gamau diogelwch a sefydlwyd i atal unrhyw wrthdaro buddiannau posibl rhwng Gweinidogion a threfniadau'r cyrff olynol, pe byddai'r trefniadau'n amharu ar eu hetholaethau?

Mr Shortridge: Amlinellir y trefniadau sylfaenol parthed buddiannau Gweinidogion yng nghôd gweinidogion y Cynulliad. Materion i'r Gweinidogion eu hunain yw'r rhain.

[18] **Alun Cairns:** In your advice to Ministers, though, does that code ever play a part, should those Ministers ever become responsible for taking decisions in relation to the wind-up of organisations such as CBDC, particularly in relation to the transfer of assets?

Mr Shortridge: As officials, we always try to ensure that if there is any potential for a conflict of interest, other Ministers are involved in the process.

[19] **Alun Cairns:** Thank you very much. I draw your attention to figure 7, and to what happened on 20 October 1999, when the then First Secretary announced that Cardiff City and County Council would assume responsibility for the Harbour Authority. Why is it that the section 165 agreements relating to such matters were not signed until 27 and 28 March of the following year?

Mr Shortridge: It was because these were very detailed, complex agreements. The statement in October 1999 set out the heads of terms, essentially, of the transfer of those responsibilities. Giving effect to those heads of terms in a way that was both comprehensive and satisfactory to all the parties concerned was a very long, detailed and complex task.

[20] **Alun Cairns:** I appreciate that it was a very detailed task, but having announced the decision that the Harbour Authority and the maintenance contract would be followed through by Cardiff council, was the Assembly under pressure or in difficulty, and its negotiating hand weakened somewhat, when it came to agreeing the transfer of assets and liabilities from CBDC to Cardiff council?

Mr Shortridge: I will ask Steve Phillips to comment on that question as well, because, from my perception, I was not aware of any difficulties where we were being disadvantaged because of the time pressure that we were all under to get the section 165 agreements signed off in March. Before I invite Steve to come in, I will make the other point that none of the section 165 agreements were signed until March, even though the

[18] **Alun Cairns:** Ond yn eich cyngor chi i Weinidogion, a fydd y côd hwnnw'n chwarae rhan fyth, pe bai'r Gweinidogion hynny'n cael cyfrifoldeb dros wneud penderfyniadau ynghylch dirwyn i ben sefydliadau megis Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd, yn enwedig o ran trosglwyddo asedau?

Mr Shortridge: Fel swyddogion, byddwn bob amser yn ceisio sicrhau, os oes unrhyw botensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau, bod Gweinidogion eraill yn cael rhan yn y broses.

[19] **Alun Cairns:** Diolch yn fawr. Hoffwn dynnu'ch sylw at ffigur 7, ac at yr hyn a ddigwyddodd ar 20 Hydref 1999, pan gyhoeddodd y Prif Ysgrifennydd ar y pryd y byddai Cyngor Sir a Dinas Caerdydd yn cymryd cyfrifoldeb dros Awdurdod yr Harbwr. Pam na lofnodwyd y cytundebau adran 165 parthed y materion hyn tan 27 a 28 Mawrth y flwyddyn ganlynol?

Mr Shortridge: Yr oedd oherwydd bod y rhain yn gytundebau manwl a chymhleth dros ben. Amlinellodd y datganiad yn Hydref 1999, yn y bôn, benawdau telerau trosglwyddo'r cyfrifoldebau hynny. Yr oedd dod â'r penawdau telerau hynny i rym mewn modd a oedd yn gynhwysfawr ac yn foddhaol i bob parti dan sylw yn dasg faith, manwl a chymhleth iawn.

[20] **Alun Cairns:** Sylweddolaf ei bod yn dasg fanwl iawn, ond wedi cyhoeddi'r penderfyniad y byddai Awdurdod yr Harbwr a'r contract cynnal yn cael eu dilyn drwodd gan gyngor Caerdydd, a oedd y Cynulliad dan bwysau neu mewn cyfyngder, a'i law negodi wedi'i gwanhau rywfaint, pan ddaeth yn fater o gytuno ar drosglwyddiad asedau a rhwymedigaethau oddi wrth y gorfforaeth ddatblygu i gyngor Caerdydd?

Mr Shortridge: Gofynnaf i Steve Phillips roi sylw ar y cwestiwn hwn hefyd oherwydd, o'r hyn a welwn i, nid oeddwn yn ymwybodol o unrhyw anawsterau lle'r oeddem yn dioddef cam oherwydd y pwysau amser a oedd arnom i gyd i gael llofnodi'r cytundebau adran 165 ym mis Mawrth. Cyn imi wahodd Steve i siarad, hoffwn wneud y pwynt arall na lofnodwyd dim un o'r cytundebau adran 165 tan fis Mawrth, er bod y memoranda

memoranda of understanding to which they related were signed off in the previous March.

Mr Phillips: Just to add to that, as the Permanent Secretary said, the document signed on 20 October effectively set out the principles that would be built on and would manifest themselves in a more detailed agreement, which was the section 165 agreement. The important thing to remember is that there was a detailed negotiation in the run-up to signing the memorandum of understanding. From our point of view, it contains some very important basic principles on the Assembly's future funding requirements for the Harbour Authority and the barrage. Those were subsequently translated into the section 165 agreement. To answer your question, I did not feel that we were particularly disadvantaged, but we were under huge time pressure because we had the very real deadline of 31 March to meet. However, we did not really feel disadvantaged in the negotiations because we had those basic principles set out in the terms of the memorandum of understanding, to which Cardiff City and County Council and the First Minister were prepared to sign up.

[21] **Alun Cairns:** We will come to discuss the financial arrangements later on. However, I am getting at the fact that, if the decision had been taken that Cardiff council should take responsibility for the Harbour Authority and the maintenance contract, then the Assembly had, in effect, ruled out any other option. That may well have been the preferred bidder or the recommendation from Cardiff Bay Development Corporation. You will remember, Mr Phillips, from the Economic Development Committee, that politicians held the view at the time—albeit that that was a political Committee in many ways—that Cardiff council held the Assembly over a barrel, because the commitment had already been made that the Harbour Authority and the maintenance contract should go to it. That had then weakened the Assembly's negotiating hand in terms of the transfer of assets.

Mr Phillips: Let me say two things in response to that. Had we left the signing of

dealltwriaeth perthnasol wedi'u llofnodi yn y mis Mawrth blaenorol.

Mr Phillips: Os caf ychwanegu at hynny: fel y dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol, yr oedd y ddogfen a lofnodwyd ar 20 Hydref i bob pwrpas yn amlinellu'r egwyddorion y bwriedid adeiladu arnynt ac a fyddai'n amlygu'u hunain mewn cytundeb manylach, sef y cytundeb adran 165. Y peth pwysig i'w gofio yw y bu negodi manwl yn y cyfnod cyn llofnodi'r memorandwm dealltwriaeth. O'n safbwynt ni, mae'n cynnwys rhai egwyddorion sylfaenol pwysig iawn ynghylch gofynion cyllid y Cynulliad yn y dyfodol ar gyfer Awdurdod yr Harbwr a'r morglawdd. Trosglwyddwyd y rhain wedyn i'r cytundeb adran 165. I ateb eich cwestiwn, ni themlais ein bod yn dioddef cam yn arbennig, ond yr oeddem dan bwysau amser anferthol oherwydd yr oedd yn rhaid inni gwblhau'r broses erbyn 31 Mawrth yn bendant. Fodd bynnag, nid oeddem yn teimlo dan anfantais mewn gwirionedd yn y negodi gan fod gennym yr egwyddorion sylfaenol hynny wedi'u hamlinellu yn nhelerau'r memorandwm dealltwriaeth, yr oedd Cyngor Sir a Dinas Caerdydd a'r Prif Weinidog yn fodlon ei lofnodi.

[21] **Alun Cairns:** Cawn drafod y trefniadau cyllidol yn nes ymlaen. Fodd bynnag, cyfeirio yr wyf at y ffaith, os oedd y penderfyniad wedi'i wneud mai cyngor Caerdydd ddylai gymryd cyfrifoldeb am Awdurdod yr Harbwr a'r contract cynnal, yna yr oedd y Cynulliad, mewn effaith, wedi gwadu unrhyw opsiwn arall. Efallai'n wir mai dyna oedd y cynigydd a hoffid orau neu'r argymhellid gan Gorfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Fe gofiwch, Mr Phillips, o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, fod gwleidyddion o'r fam ar y pryd—er mai Pwyllgor gwleidyddol oedd hwnnw mewn sawl ffordd—fod y Cynulliad ar drugaredd cyngor Caerdydd, gan fod yr ymrwymiad eisoes wedi'i wneud y dylai Awdurdod yr Harbwr a'r contract cynnal fynd iddo. Yr oedd hynny wedyn wedi gwanhau llaw negodi'r Cynulliad yn nhermau trosglwyddo asedau.

Mr Phillips: Gadewch imi ddweud dau beth mewn ymateb i hynny. Pe baem wedi gadael

the memorandum of understanding for very much longer, we would have been in serious trouble in terms of time, because we had only some six months left, and that was that. Yes, you have a point. Our negotiating position, in certain respects, may arguably have been weakened by the fact that it was publicly announced that Cardiff council would become the Harbour Authority. However, it is important to remember that we, as an Assembly, were not in a position to impose solutions on local authorities. Therefore, it was a negotiation. In a negotiation with Assembly sponsored public bodies, they are ultimately responsible to the Assembly. The position is not precisely the same in relation to local authorities, so that was a different sort of negotiation. Against that background, we had alternative options available. We could have created, for example, another Assembly sponsored public body to become the Harbour Authority had Cardiff council walked away from the negotiations at any point. Similarly, we could have—

[22] **Alun Cairns:** Excuse me, Chair, for cutting across, but I am saying that the principle is that, having made that announcement on 20 October 1999, those options were not available any longer.

Mr Phillips: No, I would not necessarily agree with that because those options were available. Had Cardiff council decided to walk away from negotiations, there were other options available. We looked at those options, but the problem was time.

[23] **Janet Davies:** Do you wish to come back on that, Mr Shortridge?

Mr Shortridge: I have two points. I think that, from my perspective as Accounting Officer, there was great value in having the basic parameters of this agreement set out in the memorandum of understanding in October, otherwise we would have had no basis to move from there to providing a section 165 agreement. So I do not think that there was an alternative to that. The other factor that weighed with me was that it was a policy of the Assembly Cabinet, and indeed

i lawer mwy o amser fynd heibio cyn llofnodi'r memorandwm dealltwriaeth, buasem mewn trafferthion difrifol yn nhermau amser, gan mai dim ond rhyw chwe mis oedd gennym ar ôl, a dyna ni. Oes, mae gennych bwynt. Gellir dadlau fod ein safle negodi, i ryw raddau, wedi'i wanhau gan y ffaith fod cyhoeddiad wedi'i wneud yn gyhoeddus mai cyngor Caerdydd fyddai Awdurdod yr Harbwr. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio nad oeddem ni, fel Cynulliad, mewn sefyllfa i orfodi atebion ar awdurdodau lleol. Felly, negodi a gafwyd. Wrth negodi â chyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, maent yn y pen draw yn atebol i'r Cynulliad. Nid yw'r sefyllfa yn union yr un peth mewn perthynas ag awdurdodau lleol, felly math gwahanol o negodi oedd hynny. Yn erbyn y cefndir hwnnw, yr oedd gwahanol opsiynau ar gael inni. Buasem wedi gallu creu, er enghraifft, gorff cyhoeddus arall a noddir gan y Cynulliad i fod yn Awdurdod Harbwr pe bai cyngor Caerdydd wedi cerdded allan o'r negodi ar unrhyw bwynt. Yn yr un modd, buasem wedi gallu—

[22] **Alun Cairns:** Esgusodwch fi, Gadeirydd, am dorri ar draws, ond yr wyf fi'n dweud mai'r egwyddor yw, gan fod y cyhoeddiad hwnnw wedi'i wneud ar 20 Hydref 1999, nad oedd yr opsiynau hynny ar gael mwyach.

Mr Phillips: Na, ni fyddwn o reidrwydd yn cytuno â hynny oherwydd yr oedd yr opsiynau hynny ar gael. Petasai cyngor Caerdydd wedi penderfynu cerdded i ffwrdd o'r negodi, yr oedd opsiynau eraill ar gael. Edrychwyd ar yr opsiynau hynny, ond amser oedd y broblem.

[23] **Janet Davies:** A oes arnoch chi eisiau dod yn ôl ar hynny, Mr Shortridge?

Mr Shortridge: Mae gennyf ddau bwynt. Credaf, o'm safbwynt i fel Swyddog Cyfrifon, fod cryn werth mewn cael terfynau sylfaenol y cytundeb hwn wedi'u hamlinellu yn y memorandwm dealltwriaeth ym mis Hydref, neu fel arall ni fuasai gennym unrhyw sail i symud oddi yno at ddarparu cytundeb adran 165. Felly nid wyf yn meddwl fod dewis arall ar gael i hynny. Y ffactor arall a bwysodd arnaf fi oedd ei bod yn bolisi gan Gabinet y Cynulliad, ac yn wir

pretty much the whole Assembly, that there should be fewer and fewer Assembly sponsored public bodies. So the fact that there was an outcome being negotiated that handed over the Harbour Authority and the barrage, among other things, to the local authority was entirely consistent with the Assembly's policies. In a sense, what we are talking about now is a consequence of that reasonable position.

[24] **Alun Cairns:** Mr Shortridge, I would like to press you somewhat on what Mr Phillips said. He said that a statement was made on 20 October 1999, and that the section 165 arrangements were completed on 27 and 28 March. Mr Phillips has just said that if Cardiff council had walked away, we could have looked at other options, albeit that that might not have been in line with the Assembly's thinking or policy at that time. However, within such a tight timescale, was it ever realistic that the Assembly could have looked at any other option?

Mr Shortridge: I would have to check the files to give a definitive view. However, in principle I am sure that it was because, at an earlier stage, we were looking at the possibility of, in effect, slimming down the Cardiff Bay Development Corporation and creating a harbour authority as a company limited by guarantee. So I think that these sorts of things can be done at short notice if both the political will and the need is there.

[25] **Alun Cairns:** If, in the weeks leading up to 27 and 28 March, Cardiff council had said 'Well, sorry, we're walking away from this', was there a viable option available to the Assembly?

Mr Shortridge: I think that we are getting into hypothetical situations here. That was not a situation that actually happened in practice. I cannot tell you this afternoon what our cut-off point would have been for the use of an alternative option.

[26] **Alun Cairns:** The principle that I am trying to underline, Chair, is that making the decision closed off, or potentially closed off, many options for the Assembly and possibly weakened our negotiating hand in transferring the assets and liabilities to other

gan y Cynulliad cyfan fwy neu lai, y dylai fod llai a llai o gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad. Felly yr oedd y ffaith fod canlyniad yn cael ei negodi a fyddai'n trosglwyddo Awdurdod yr Harbwr a'r morglawdd, ymhlith pethau eraill, i'r awdurdod lleol yn gwbl gyson â pholisïau'r Cynulliad. Mewn un ystyr, mae'r hyn yr ydym yn ei drafod yn awr yn ganlyniad i'r safle rhesymol hwnnw.

yr argraff mai dim ond £150,000 ydoedd: rhoddwyd £6.1 miliwn o fudd, o adnoddau, i Gyngor Sir a Dinas Caerdydd. Efallai'n wir fod y trefniant ariannol wedi golygu mai dim ond £150,000 ydoedd mewn termau ymarferol, ond fe dderbyniodd y cyngor fudd. Pe bai wedi dymuno rhyddhau'r tir, a oedd yn werth £5.95 miliwn, yna buasai wedi cael yr ecwiti hwnnw. Mae angen inni fod yn glir mai £6.1 miliwn yw'r swm. Ai yn hollol annibynnol y daethpwyd at y swm o £6.1 miliwn, a'r swm o £5.95 miliwn, a ostyngodd y £6.1 miliwn?

Mr Phillips: Ie. Fe'i gwnaethpwyd oddeutu'r un amser, ond dwy broses wahanol oedd y dadansoddiad o gyfansoddiad y £6.1 miliwn a dadansoddiad y £5.95 miliwn—y deunw ato yn ddiweddarach, mae'n siŵr.

[63] **Janet Davies:** Mae'n debyg y deunw yn ôl at hynny yn ddiweddarach. Helen Mary, mae gennych chi ambell gwestiwn eto ar drefniadau ariannu'r olynwyr?

[64] **Helen Mary Jones:** Oes. Ym mharagraff 26 yn yr adroddiad, cyfeirir at y ffaith y gallai'r Cynulliad orfod talu am rwymedigaethau eraill a oedd naill ai heb eu rhagweld neu'n amhosibl eu mesur ar adeg y dirwyn i ben, a hynny ar ben y £73 miliwn sydd wedi'i glustnodi'n glir i Gyngor Sir a Dinas Caerdydd dros y pum mlynedd. Mae hynny'n ddatblygiad ar fy nghwestiwn blaenorol ynghylch adnoddau cymunedol. A ninnau bellach wedi mynd heibio blwyddyn gyntaf gweithredu'r trefniadau olynw, a allwch ddweud wrthym faint o gyllid ychwanegol a roddwyd hyd yma i'r cyngor i dalu am y rhwymedigaethau annisgwyl neu anfesuradwy hyn, boed mewn perthynas ag Awdurdod yr Harbwr neu ag unrhyw rôl arall o'i eiddo fel corff olynol?

Mr Shortridge: Ni allaf roi ffigur manwl. Fel y dywedodd Emyr yn gynharach, mae ambell fater wedi codi, ond ar y cyfan, symiau reit fach oedd dan sylw mewn gwirionedd. Yr wyf yn siŵr y gallwn fesur y rheini ichi a gadael ichi gael nodyn.

[65] **Helen Mary Jones:** Diolch. Dyma fy mhrif gwestiwn olaf, Gadeirydd. Mae natur y swyddogaethau a drosglwyddwyd i'r cyrff

successor bodies other than Cardiff City and County Council is such that the funding looks more straightforward. Paragraph 31 shows that £6 million of the £7.9 million other funding is the running costs of Techniquest, which is very straightforward, and the capital costs for the replacement of the Welsh Industrial and Maritime Museum. So to what does the other £1.9 million relate? What is that about?

Mr Roberts: I can take that. There was some expenditure that was incurred during the non-operational period of CBDC. That is to what the £1.9 million actually refers. It was mainly superannuation payments and other payments needed to settle final accounts.

[66] **Helen Mary Jones:** Thank you. That is helpful. Just as a quick supplementary to that, the funding is in there for the replacement museum. When are we anticipating that that money will be spent? I think that we know where; we would like to know when.

Mr Shortridge: I am not aware of any final decisions on that. Again, I will have to let you have a note on it, but my guess is that there is not anything definitive to tell you.

[67] **Helen Mary Jones:** I thought so. Thank you.

[68] **Janet Davies:** I think that we just want to look very briefly at the cost of the actual process of winding up. Jocelyn has some questions on this.

[69] **Jocelyn Davies:** The report states that the wind-up process was difficult and complex. What we have heard today certainly supports that. Therefore, the cost of the wind-up must have been very difficult and complex to estimate as well. So how accurate is your estimate of £3.6 million for the cost of the wind-up? What did that include? Is not that figure the lowest possible estimate of the wind-up process?

Mr Shortridge: I would not want to try to attach more credibility to that figure than necessary. I think that, as officials, we gave it

olynol eraill ar wahân i Gyngor Sir a Dinas Caerdydd yn gyfryw fel bod y drefn ariannu i'w gweld yn symlach. Dengys paragraff 31 mai costau rhedeg Techniquest, sydd yn syml iawn, a chostau cyfalaf sefydlu Amgueddfa Ddiwydiant a Môr Gymreig newydd yw £6 miliwn o'r £7.9 miliwn o gyllid arall. Beth felly sydd i gyfrif am yr £1.9 miliwn arall? Beth sydd y tu ôl i hynny?

Mr Roberts: Gallaf fi ateb hynny. Cafwyd rhywfaint o wariant yn ystod cyfnod anweithredol Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd. Dyna sydd wrth wraidd yr £1.9 miliwn. Taliadau blwydd-dal a thaliadau eraill angenrheidiol i setlo cyfrifon terfynol oeddent yn bennaf.

[66] **Helen Mary Jones:** Diolch. Mae hynny o gymorth. Dyma gwestiwn atodol i hynny, yn sydyn: mae'r cyllid yno ar gyfer yr amgueddfa newydd. Pa bryd yr ydym yn rhagweld y caiff yr arian hwnnw ei wario? Credaf ein bod yn gwybod ym mhle; fe hoffem gael gwybod pa bryd.

Mr Shortridge: Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw benderfyniadau terfynol ar hynny. Eto, bydd raid imi adael ichi gael nodyn am hynny, ond y syniad sydd gennyf fi yw nad oes dim byd pendant i'w ddweud wrthyh.

[67] **Helen Mary Jones:** Dyna yr oeddwn yn ei amau. Diolch.

[68] **Janet Davies:** Yr wyf yn meddwl fod arnom eisiau edrych yn frysiog iawn ar gost y broses ddirwyn i ben ei hun. Mae gan Jocelyn gwestiynau ar hyn.

[69] **Jocelyn Davies:** Noda'r adroddiad fod y broses ddirwyn i ben yn anodd a chymhleth. Mae'r hyn yr ydym wedi'i glywed heddi yn sicr yn ategu hynny. Mae'n rhaid fod cost y dirwyn i ben yn anodd a chymhleth iawn ei hamcangyfrif hefyd felly. Felly pa mor gywir yw'ch amcangyfrif o £3.6 miliwn ar gyfer cost y dirwyn i ben? Beth oedd hynny'n ei gynnwys? Onid yr amcangyfrif isaf posibl o'r broses ddirwyn i ben yw'r ffigur hwnnw?

Mr Shortridge: Ni fyddwn eisiau ceisio rhoi mwy o hygrdedd i'r ffigur hwnnw nag sydd yn angenrheidiol. Yr wyf yn meddwl ein bod,

as our best indicative estimate. I can tell you how it was built up and you can judge for yourself. It was based on 20 per cent of £15 million of Cardiff Bay Development Corporation's staff costs—and those costs include consultancies—10 per cent to 15 per cent of our division's staff costs, and the £540,000 in payments to the county councils, which are referred to in this report. That was the basis of this figure of £3.6 million.

[70] **Jocelyn Davies:** Anything else?

Mr Shortridge: No. That is how the figure was calculated. However, we do not all log our own time and so on, so this was just simply officials giving the National Audit Office their best estimate of what it might have cost.

[71] **Jocelyn Davies:** Okay. Thank you. That is all, Janet.

[72] **Janet Davies:** We will now go on to the evaluation of the wind-up process. I would like to kick off the questions and then Jocelyn will ask some more questions afterwards. The summary of findings on page 25 of the report does not include any instances of 'red lights', which shows that the Auditor General did not identify any significant issues that undermined the wind-up process. I think that we are very pleased to see that. However, he did identify some minor weaknesses. What are the wider lessons, Mr Shortridge, that you think the Assembly can draw from this exercise?

Mr Shortridge: Well, as I said at the outset, and I do not want to appear complacent, but I think that, overall, everyone concerned did reasonably well under the circumstances. I pick my words carefully; I do not want to overstate it. I think that, in terms of the National Audit Office's own evaluation, the particular lessons are really on matters of detail. I was, personally, very concerned about how long it took—it was understandable but, nonetheless, it took a long time—to resolve the staffing issues, and the effect that that must have had on individual members of staff in Cardiff Bay Development Corporation. I think that there

fel swyddogion, wedi ei gynnig fel ein hamcangyfrif dangosol gorau. Gallaf ddweud wrthyf sut y'i lluniwyd a chewch chi farnu drosoch eich hunain. Fe'i seiliwyd ar 20 y cant o £15 miliwn o gostau staff Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd—ac mae'r costau hynny'n cynnwys costau ymgynghorwyr—10 y cant i 15 y cant o gostau staff ein his-adran ni, a'r £540,000 o daliadau i'r cynghorau sir, y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn. Dyna oedd sail y ffigur hwn o £3.6 miliwn.

[70] **Jocelyn Davies:** Unrhyw beth arall?

Mr Shortridge: Na. Dyna sut y cyfrifwyd y ffigur. Fodd bynnag, ni fyddwn i gyd yn logio'n hamser ein hunain ac ati, felly mater syml oedd hyn o swyddogion yn rhoi i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol eu hamcangyfrif gorau o'r hyn y gallasai fod wedi'i gostio.

[71] **Jocelyn Davies:** Iawn. Diolch. Dyna'r cyfan, Janet.

[72] **Janet Davies:** Awn ymlaen yn awr at werthusiad y broses ddirwyn i ben. Hoffwn i gychwyn yr holi ac wedyn bydd gan Jocelyn ragor o gwestiynau. Nid yw crynodeb y canfyddiadau ar dudalen 25 yr adroddiad yn cynnwys unrhyw enghreifftiau o 'oleuadau coch', sydd yn dangos na nododd yr Archwilydd Cyffredinol unrhyw faterion arwyddocaol a danseiliodd y broses ddirwyn i ben. Mae'n debyg ein bod yn falch iawn o weld hynny. Fodd bynnag, fe nododd ambell fân wendid. Beth yw'r gwersi mwy cyffredinol, Mr Shortridge, y gall y Cynulliad eu dysgu o'r ymarferiad hwn yn eich tyb chi?

Mr Shortridge: Wel, fel y dywedais ar y dechrau, nid oes arnaf eisiau ymddangos yn hunan-fodlon, ond yr wyf yn meddwl, ar y cyfan, y gwnaeth pawb dan sylw yn weddol o dda dan yr amgylchiadau. Yr wyf yn dewis fy ngeiriau'n ofalus; nid oes arnaf eisiau gor-ddweud. Yr wyf yn meddwl, yn nhermau gwerthusiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ei hun, mai gwersi ar faterion o fanylder a geir mewn gwirionedd. Yr oeddwn i, yn bersonol, yn bryderus iawn ynghylch yr amser a gymerwyd—yr oedd yn ddealladwy ond, serch hynny, fe gymerodd amser maith—i ddatrys y materion staffio, a'r effaith a gafodd hynny, mae'n siŵr, ar

is an issue there as to how that can be better anticipated and dealt with in the future. There were also, as the report indicates, detailed financial matters that, I think, had not been fully anticipated or expected—those relating to repayments to Her Majesty's Customs and Excise, to stamp duty and so on. So I think that we got a better understanding of some of the less obvious, but nonetheless important, financial matters which were associated with transfers of assets. However, subject to that, without going over the old ground—if I can put it that way—about how we can try to ensure a better orchestration of the negotiations, I would not want to draw your attention to any other particular lessons this afternoon.

[73] **Janet Davies:** You referred to the issue of the staff, which was probably one of the most difficult issues involved. I was involved on one side in local government reorganisation, when there were a lot of problems about to where staff were transferring and whether they could transfer. Bearing in mind that we are probably looking at the health authorities going in the next few years, do you feel that, taking the local government re-organisation—it was not ours, but it was in the public arena in Wales—and this particular one into account, there are any lessons to be learned for the wind-up of the health authorities?

Mr Shortridge: All I can say about that is that, particularly as Permanent Secretary, I take staffing issues very seriously indeed. I will want to look very carefully at the arrangements that will be made for the wind-up of the health authorities. I think that, as a result of the Transfer of Undertakings (Protection of Employment) regulations, staff have, potentially, much greater assurance about their future than they might have had 20 years ago. Nonetheless, the closure of organisations is a very stressful time for staff, which means that it has to be very sensitively managed, and sensitive management means open management, giving people as much information as you can at any one time. The particular problem

aelodau staff unigol yng Nghorfforaeth Ddatblygu Bae Caerdydd. Credaf fod hynny'n codi'r cwestiwn sut y gellir rhagweld a delio â hynny'n well yn y dyfodol. Yr oedd hefyd, fel y sonia'r adroddiad, faterion ariannol manwl nad oedd, yn fy marn i, wedi'u rhagweld na'u disgwyl yn llawn—yn ymwneud ag ad-daliadau i Swyddfa Dollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi, â'r doll stampiau ac yn y blaen. Felly yr wyf yn meddwl inni gael gwell dealltwriaeth o rai o'r materion ariannol llai amlwg, ond pwysig serch hynny, a oedd yn gysylltiedig â throsglwyddo asedau. Fodd bynnag, yn amodol ar hynny, heb fynd dros yr hen dir—os caf ei roi felly—ynghylch sut y gallwn geisio sicrhau gwell trefn i'r negodi, ni fyddwn yn dymuno tynnu'ch sylw at unrhyw wersi arbennig eraill y prynhawn yma.

[73] **Janet Davies:** Cyfeiriasoch at fater y staff, sef, mae'n debyg, un o'r materion anoddaf a wynebwyd. Yr oeddwn i ar un ochr i'r bwrdd yn ystod ad-drefnu llywodraeth leol, pryd y cafwyd llawer o broblemau ynghylch i ble'r oedd staff yn trosglwyddo a ph'run ai y gallent drosglwyddo. O gofio y byddwn, mae'n debyg, yn gweld yr awdurdodau iechyd yn diflannu yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, a ydych yn teimlo, o ystyried ad-drefnu llywodraeth leol—nid ni oedd yn gyfrifol, ond fe ddigwyddodd yn yr arena gyhoeddus yng Nghymru—a'r achos hwn yn arbennig, fod unrhyw wersi i'w dysgu ar gyfer dirwyn yr awdurdodau iechyd i ben?

Mr Shortridge: Y cyfan y gallaf ei ddweud am hynny, yn enwedig fel Ysgrifennydd Parhaol, yw fy mod yn cymryd materion staffio yn wirioneddol o ddifrif. Bydd arnaf eisiau edrych yn ofalus iawn ar y trefniadau a wneir ar gyfer dirwyn yr awdurdodau iechyd i ben. Mae'n debyg, o ganlyniad i'r rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Gwarchod Cyflogaeth), fod gan staff, o bosibl, lawer mwy o sicrwydd am eu dyfodol nag a fyddai ganddynt efallai 20 mlynedd yn ôl. Serch hynny, mae cau sefydliadau yn gyfnod o gryn straen i staff, felly rhaid wrth reolaeth sensitif, a golyga rheolaeth sensitif reolaeth agored, gan roi cymaint o wybodaeth i bobl ag y gallwch ar unrhyw un tro. Y broblem arbennig yn y fan hon, yn ôl a

here, as I understand it, was associated with the fact that the section 165 agreements were not signed off until late in the day and, until the section 165 agreements were signed, some staff could not have an absolute assurance as to where their jobs were going. That was a particular concern of mine at the time.

[74] **Janet Davies:** Thank you very much.

[75] **Jocelyn Davies:** You mentioned stamp duty a moment ago. Looking at the transfer of assets and the issue of stamp duty in paragraph 47 on page 22 of the report, why was this not progressed and resolved much earlier on in the process?

Mr Shortridge: I think that the answer to that again is that, until you have certainty as to precisely what transfer is going to take place, you cannot quantify and determine the stamp duty. In practice, the actual amount of stamp duty associated with these transfers seems to me to be at a reasonable level and not one therefore, that, in the event, caused any of us particular problems.

[76] **Jocelyn Davies:** The report does say that it is a relatively small amount, but that was not the issue. The issue was whether it was payable or not. It states here in the report that counsel's advice had to be sought as to whether it was payable, not just on the amount. It could have ended up being a large amount.

Mr Shortridge: Yes, indeed, it could. All I can say to that is that there was genuine uncertainty at the time as to on what parts of this transfer stamp duty would be payable. Therefore, to ensure that the matter was dealt with properly, counsel's opinion was sought.

[77] **Jocelyn Davies:** Turning to the current assets that were transferred from the corporation to the Welsh Development Agency upon the wind-up, mentioned in paragraphs 50 to 52, why were debts totalling £33,000, which had been deemed doubtful by the corporation, transferred to the agency for collection? What does 'doubtful' mean: doubtful debts, or doubtful

ddeallaf fi, oedd na chafodd y cytundebau adran 165 eu llofnodi tan yn hwyr yn y dydd a, hyd nes byddai'r cytundebau adran 165 wedi'u llofnodi, ni allai rhai staff gael sicrwydd pendant parthed i ble'r oedd eu swyddi'n mynd. Yr oedd hynny'n destun pryder arbennig imi ar y pryd.

[74] **Janet Davies:** Diolch yn fawr.

[75] **Jocelyn Davies:** Soniasoch am doll stampiau funud yn ôl. O edrych ar y trosglwyddiad asedau a mater y doll stampiau ym mharagraff 47 ar dudalen 22 yr adroddiad, pam na chafodd hyn ei ddatblygu a'i ddatrys yn llawer cynt yn y broses?

Mr Shortridge: Yr wyf yn meddwl mai'r ateb i hynny, eto, yw na ellir mesur a phennu'r doll stampiau nes y bydd sicrwydd ynghylch pa drosglwyddiad yn union sydd yn mynd i ddigwydd. Yn ymarferol, mae swm gwirioneddol y doll stampiau sydd yn gysylltiedig â'r trosglwyddiadau hyn yn ymddangos yn rhesymol i mi ac nid yn un, felly, a achosodd broblemau arbennig i neb ohonom, fel y digwyddodd pethau.

[76] **Jocelyn Davies:** Y mae'r adroddiad yn dweud mai swm cymharol fach ydyw, ond nid dyna'r pwynt. Y cwestiwn yw a ydoedd yn daladwy ai peidio. Nodir yma yn yr adroddiad y bu'n rhaid ceisio barn cwnsler ynghylch a ydoedd yn daladwy, nid ar y swm yn unig. Fe allasai fod wedi tyfu'n swm mawr erbyn y diwedd.

Mr Shortridge: Gallasai yn wir. Y cwbl y gallaf fi ei ddweud am hynny yw bod gwir ansicrwydd ar y pryd ynghylch pa rannau o'r doll stampiau hon ar y trosglwyddiad a fyddai'n daladwy. Felly, er mwyn sicrhau ein bod yn delio â'r mater yn briodol, ceisiwyd barn cwnsler.

[77] **Jocelyn Davies:** I droi at yr asedau cyfredol a drosglwyddwyd oddi wrth y gorfforaeth i Awdurdod Datblygu Cymru adeg y dirwyn i ben, a grybwyllir ym mharagraffau 50 i 52, pam y trosglwyddwyd dyledion o gyfanswm o £33,000, y dyfarnwyd eu bod yn amheus gan y gorfforaeth, i'r awdurdod datblygu i'w casglu? Beth yw ystyr 'amheus': dyledion

that they would ever be collected?

Mr Shortridge: Well, I think that all organisations find themselves in a situation where they have to write off debt. This £33,000 was debt that, at the time, people thought might well not be recoverable. However, as Accounting Officer, I am actually probably quite pleased that it was transferred, because I am not keen on debts to public bodies being written off prematurely. So I think that, under the circumstances, the safe course was taken in transferring this £33,000, even if, in the end, it was not recovered.

[78] **Jocelyn Davies:** I do not think that I would consider debt that you do not think that you can recover as an asset to be transferred. Should not the debts have been written off first by the corporation? Is it an asset if you do not think that you can recover it?

Mr Shortridge: Well, it is a liability. However, the point is—and it is a judgment that, as officials, we have to make all the time—whether you are going to pursue a particular debt or whether you are satisfied that it is irrecoverable. As Accounting Officer, I take some assurance from people going the extra mile and not writing it off because of the convenience of a wind-up of a development corporation.

[79] **Jocelyn Davies:** I am glad that you are concerned about money owed to the public purse. Paragraph 51 states that value added tax was recoverable to a tune of something like £302,000, and that was not transferred to the agency for collection at the time of the wind-up, but was left until the end of the non-operational period in June 2000. Why was that? After all, these doubtful debts were transferred as assets. Should not the money due from value added tax have been transferred as an asset as well?

Mr Shortridge: I do not know why it was not transferred in March, but I guess that,

amheus, ynteu ei bod yn amheus a gaent eu casglu fyth?

Mr Shortridge: Wel, mae'n debyg fod pob sefydliad yn ei gael ei hun mewn sefyllfa lle mae'n rhaid dileu dyled. Yr oedd y £33,000 yma yn ddyled yr oedd pobl, ar y pryd, yn meddwl efallai'n wir na fyddai modd sicrhau y câi ei had-dalu. Fodd bynnag, fel Swyddog Cyfrifon, mae'n debyg fy mod i mewn gwirionedd yn eithaf balch iddi gael ei throsglwyddo, oherwydd nid wyf yn hoff o weld dyledion i gyrff cyhoeddus yn cael eu dileu'n gynamserol. Felly yr wyf yn meddwl, dan yr amgylchiadau, y gwnaethpwyd y peth diogel wrth drosglwyddo'r £33,000 hyn, hyd yn oed os na chafwyd yr arian yn ôl yn y diwedd.

[78] **Jocelyn Davies:** Nid wyf yn meddwl y byddwn i'n ystyried dyled yr ydych chi'n amau y gallwch ei hadennill yn ased i'w drosglwyddo. Oni ddylai'r dyledion fod wedi'u dileu yn gyntaf gan y gorfforaeth? Ai ased ydyw os nad ydych yn meddwl y gallwch ei hadennill?

Mr Shortridge: Wel, mae'n rhwymedigaeth. Fodd bynnag, y pwynt yw—ac mae hyn yn ddyfarniad y mae'n rhaid i ni, fel swyddogion, ei wneud drwy'r amser—a ydych am fynd ar ôl dyled ynteu a ydych yn fodlon nad oes modd ei hadennill. Fel Swyddog Cyfrifon, cymeraf rywffaint o gysur o'r ffaith fod rhywrai'n mynd yr ail filltir yn hytrach na dileu'r ddyled oherwydd hwylustod dirwyn corfforaeth ddatblygu i ben.

[79] **Jocelyn Davies:** Yr wyf yn falch eich bod yn pryderu am arian sydd yn ddyledus i'r pwrs cyhoeddus. Noda paragraff 51 fod rhywbeth tebyg i £302,000 o dreth ar werth i'w adennill, ac na chafodd ei drosglwyddo i'r awdurdod i'w gasglu ar adeg y dirwyn i ben, ond ei adael tan ddiwedd y cyfnod anweithredol ym mis Mehefin 2000. Pam y gwnaed hynny? Wedi'r cyfan, cafodd y dyledion amheus hyn eu trosglwyddo fel asedau. Oni ddylai'r arian a oedd yn dyledus oddi wrth dreth ar werth fod wedi'i drosglwyddo fel ased hefyd?

Mr Shortridge: Ni wn pam na throsglwyddwyd ef ym mis Mawrth, ond yr

even if it had been transferred in March, some or all of that £40,000 would have been lost.

[80] **Jocelyn Davies:** I had not mentioned the £40,000 yet. I was coming on to that.

Mr Shortridge: I do not know whether Steve can help on why we did not transfer it until July.

Mr Phillips: I suspect that it was an oversight, to be frank. However, I think that what you said earlier, Permanent Secretary, is right, in the sense that it would not probably have made a material difference to the amount that was ultimately recovered.

[81] **Jocelyn Davies:** I see. Therefore, in your monitoring of the corporation's activities, you did allow an amount of £40,000 to be lost, because, of course, by the time that that was brought to anybody's attention, it was too late to claim the £40,000 back from Her Majesty's Customs and Excise. That £40,000 is more than £33,000 that we of course had to guard against being lost to the public purse. However, this money was lost. I feel that money was possibly wasted trying to collect debts that were doubtful, but that this £40,000 was just allowed to be lost because of an oversight.

Mr Phillips: May I say that I think that both of these sums of money were, essentially, operational matters for the development corporation during its lifetime. That is not say that we should have, perhaps, paid them more attention than we did. However, ultimately, as the report records, the WDA has been able to recover all that was due from Customs and Excise, with the exception of this £40,000. I am not aware of the specific debts that were deemed doubtful within the £33,000. However, I think that, in the circumstances—at the very death in terms of the wind-up—it was the prudent course to transfer the debts rather than write them off. I dare say that the WDA would have made a value judgment as to whether or not to pursue them. Had it believed, as you just pointed out, that the debts would have potentially cost more to

wyf yn tybio, hyd yn oed pe bai wedi'i drosglwyddo ym Mawrth, y buasai rhywfaint neu'r cwbl o'r £40,000 hynny wedi'i golli.

[80] **Jocelyn Davies:** Nid oeddwn wedi sôn am y £40,000 eto. Yr oeddwn yn dod at hynny.

Mr Shortridge: Tybed a all Steve helpu ynghylch pam na wnaethom ei drosglwyddo tan fis Gorffennaf.

Mr Phillips: Yr wyf yn amau mai diofalwch oedd hynny, â bod yn onest. Fodd bynnag, yr wyf yn meddwl bod yr hyn a ddywedasocho yn gynharach, Ysgrifennydd Parhaol, yn gywir, sef na fyddai, yn ôl pob tebyg, wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i'r swm a gafwyd yn ôl yn y diwedd.

[81] **Jocelyn Davies:** Fe welaf fi. Felly, wrth ichi fonitro gweithgareddau'r gorfforaeth, fe wnaethoch ganiatáu colli swm o £40,000, oherwydd, wrth gwrs, erbyn i hynny gael ei ddwyn i sylw unrhyw un, yr oedd yn rhy hwyr i hawlio'r £40,000 yn ôl oddi wrth Swyddfa Dollau Tramor a Chartref Ei Mawrhydi. Mae'r £40,000 hynny yn fwy na'r £33,000 yr oedd yn rhaid i ni, wrth gwrs, ochel rhag ei golli i'r pwrs cyhoeddus. Fodd bynnag, fe gollwyd yr arian hwn. Yr wyf yn teimlo i arian gael ei wastraffu o bosibl yn ceisio casglu dyledion a oedd yn amheus, ond y caniatwyd colli'r £40,000 hyn oherwydd diofalwch.

Mr Phillips: A gaf fi ddweud fy mod yn meddwl mai materion gweithredol, yn eu hanfod, i'r gorfforaeth ddatblygu yn ystod ei hoes oedd y ddau swm hyn o arian. Nid wyf yn dweud, serch hynny, na ddylem, efallai, fod wedi talu mwy o sylw iddynt nag a wnaethom. Fodd bynnag, ar ddiwedd y dydd, fel y cofnoda'r adroddiad, mae'r WDA wedi gallu adennill popeth a oedd yn ddyledus gan y Tollau Tramor a Chartref, ac eithrio'r £40,000 hyn. Nid wyf yn ymwybodol o'r dyledion penodol y dyfarnwyd eu bod yn amheus o fewn y £33,000. Fodd bynnag, yr wyf yn meddwl, dan yr amgylchiadau—yr unfed awr ar ddeg yn nhermau'r dirwyn i ben—mai'r peth doeth i'w wneud oedd trosglwyddo'r dyledion yn hytrach na'u dileu. Mae'n debyg gennyf fi y buasai'r WDA wedi gwneud penderfyniad ar sail y

recover than they were worth, I dare say that it would have made a decision not to pursue them.

[82] **Janet Davies:** Do you want to come in on this, Mr Shortridge?

Mr Shortridge: May I just say that I agree with you? When I was answering the Chair's question about lessons earlier, I think that one of the lessons to which I referred was the fact that there were some detailed financial matters around taxation and so on, which for whatever reason, those concerned had not sufficiently understood at the time. The consequence is what we see in paragraph 51. I agree with what you are saying.

[83] **Jocelyn Davies:** Turning to the continuation of regeneration in the bay area, can you explain the arrangements that you have in place to monitor this activity objectively? Is there monitoring of the regeneration?

Mr Shortridge: Is this separate and different from the financial monitoring?

[84] **Jocelyn Davies:** If you look at figure 3 in the report, which I believe is on page 9—

Mr Shortridge: The short answer to that is that as part of our regular financial monitoring, we are obviously obtaining intelligence on what is happening against the various regeneration targets. However, I think that the way to assess these matters is not primarily through incremental monitoring. However, you do need to have a snapshot evaluation of a particular point in time so that you can see in the round how the successor bodies are doing, in terms of achieving the objectives and targets that they inherited from the development corporation.

[85] **Jocelyn Davies:** So you are using the targets of the development corporation?

Mr Shortridge: What I envisage in three to five years' time, say—if I get the necessary

gwerth o fynd ar eu hôl neu beidio. Pe bai wedi credu, fel y dywedasoeh chi yn awr, y byddai wedi costio mwy, o bosibl, na gwerth y dyledion i fynd ar eu hôl, mae'n debyg gennyf fi y byddai wedi gwneud penderfyniad i beidio â mynd ar eu hôl.

[82] **Janet Davies:** A hoffech chi wneud sylw ar hyn, Mr Shortridge?

Mr Shortridge: A gaf fi ddweud fy mod yn cytuno â chi? Pan oeddwn yn ateb cwestiwn y Cadeirydd am wersi yn gynharach, yr wyf yn meddwl mai un o'r gwersi y cyfeiriais atynt oedd y ffaith fod yna rai materion ariannol manwl ynghylch treth ac ati, nad oedd y bobl dan sylw, am ba reswm bynnag, wedi'u deall yn ddigonol ar y pryd. Y canlyniad yw'r hyn a welwn ym mharagraff 51. Cytunaf gyda'r hyn yr ydych yn ei ddweud.

[83] **Jocelyn Davies:** Â throi at barhad yr adfywiad yn ardal y bae, a allwch chi egluro'r trefniadau sydd gennych ar gyfer monitro'r gweithgaredd hwn yn wrthrychol? A gedwir llygad ar y gwaith adfywio?

Mr Shortridge: A yw hyn yn wahanol ac ar wahân i'r monitro ariannol?

[84] **Jocelyn Davies:** Os edrychwch ar ffigur 3 yn yr adroddiad, sydd mi gredaf ar dudalen 9—

Mr Shortridge: Yr ateb byr i hynny yw ein bod, fel rhan o'n monitro ariannol rheolaidd, yn amlwg yn cael gwybodaeth am yr hyn sydd yn digwydd yn erbyn y gwahanol dargedau adfywio. Fodd bynnag, credaf nad drwy fonitro incrementaidd yn bennaf y mae asesu'r materion hyn. Fodd bynnag, y mae angen cael gwerthusiad sydyn o bwynt arbennig mewn amser fel y gallwch weld ym mhob agwedd sut y mae'r cyrff olynol yn ymdopi, yn nhermau cyflawni'r amcanion a'r targedau a etifeddasant oddi wrth y gorfforaeth ddatblygu.

[85] **Jocelyn Davies:** Felly yr ydych yn defnyddio targedau'r gorfforaeth ddatblygu?

Mr Shortridge: Yr hyn a ragwelaf fi ymhen tair i bum mlynedd, dyweder—os caf y

approval—is that we will conduct a thorough evaluation of how the regeneration of Cardiff Bay has gone, both overall but, more particularly, in terms of what has been achieved since the development corporation was wound up. I think that, given the scale of investment that has gone into it, the Assembly has a responsibility to satisfy itself that adequate and appropriate value for money is being secured. To the extent that it feels it is not, the Assembly has a responsibility to have learned that at a sufficiently early stage for it to be able to do something about it.

Mr Phillips: May I add one point to that? One of the advantages of transferring all of the development assets in a block to the WDA is that, through the WDA Land Division, we are able to evaluate the ongoing regeneration activity in the Cardiff Bay area. We have a dialogue with the agency and we are able to produce figures, which the Auditor General will doubtless want to come back to in the context of his next report. However, the succession arrangements allow for that ongoing monitoring and evaluation.

[86] **Jocelyn Davies:** Thank you for that information, but I will repeat my question. The corporation had targets, and you mentioned those targets, Mr Shortridge. Will you be using those targets when you evaluate the regeneration? Those targets were considered to be meaningful. Will you therefore be using them?

Mr Shortridge: Yes. Sorry, I should have made myself clearer. I would see a primary task for any holistic evaluation to be assessing the extent to which the targets set for and by the development corporation have been achieved.

[87] **Jocelyn Davies:** Thank you.

[88] **Janet Davies:** Thank you, Jocelyn. We have had a look at the more general issues in this report. I would like to spend the rest of the time looking at the specific issues that were examined by the National Audit Office. We will take a break fairly soon, but before we do so, perhaps we could consider the

gymeradwyaeth angenrheidiol—yw y byddwn yn gwneud gwerthusiad trwyadl o lwyddiant adfywiad Bae Caerdydd, yn gyffredinol ond hefyd, yn fwy penodol, yn nhermau'r hyn a gyflawnwyd ers dirwyn y gorfforaeth ddatblygu i ben. Oherwydd maint y buddsoddiad a aeth i mewn iddi, credaf fod gan y Cynulliad gyfrifoldeb i'w fodloni'i hun fod gwerth am arian digonol a phriodol yn cael ei sicrhau. I'r graddau ei fod yn teimlo nad yw hynny'n digwydd, mae gan y Cynulliad gyfrifoldeb i fod wedi canfod hynny yn ddigon cynnar iddo allu gwneud rhywbeth amdano.

Mr Phillips: A gaf fi ychwanegu un pwynt at hynny? Un o fanteision trosglwyddo holl asedau'r datblygiad mewn bloc i'r WDA yw y gallwn, drwy Is-adran Tir y WDA, werthuso'r gweithgaredd adfywio sydd yn mynd rhagddo yn ardal Bae Caerdydd. Mae gennym ddeialog gyda'r awdurdod datblygu ac yr ydym yn gallu darparu ffigurau, y bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ddiau eisiau dod yn ôl atynt yng nghyd-destun ei adroddiad nesaf. Fodd bynnag, mae'r trefniadau olynu yn caniatáu'r monitro a'r gwerthuso parhaus hwnnw.

[86] **Jocelyn Davies:** Diolch am yr wybodaeth honno, ond ailadroddaf fy nghwestiwn. Yr oedd gan y gorfforaeth dargedau, a chrybwyllwyd y targedau hynny gennych chi, Mr Shortridge. A fyddwch yn defnyddio'r targedau hynny wrth werthuso'r gwaith adfywio? Ystyriwyd bod y targedau hynny'n rhai ystyrlon. A fyddwch yn eu defnyddio felly?

Mr Shortridge: Byddwn. Mae'n ddrwg gennyf, dylaswn fod wedi egluro'n fwy clir. Tasg gyntaf i unrhyw werthuso holistaidd, yn ôl a welaf fi, fyddai asesu i ba raddau y cyflawnwyd y targedau a bennwyd gan ac ar ran y gorfforaeth ddatblygu.

[87] **Jocelyn Davies:** Diolch.

[88] **Janet Davies:** Diolch, Jocelyn. Yr ydym wedi bwrw golwg ar y materion mwy cyffredinol yn yr adroddiad hwn. Hoffwn dreulio gweddill yr amser yn edrych ar y materion penodol a archwiliwyd gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Fe gymerwn egwyl cyn bo hir, ond cyn gwneud

corporation's working relationship with Cardiff City and County Council. The report refers to some tensions. Mr Shortridge, looking at the issues of breakdown in the working relationships between Cardiff Bay Development Corporation and Cardiff council, what is your understanding as to why the breakdown occurred, and when did it come to your attention?

Mr Shortridge: Let me take the latter part of the question first. I became aware of it personally in 1997, when I became Director of Economic Affairs. However, I think—Steve can correct me if I am wrong—that coincidentally, it was at about that time that the wind-up issues began to come to a head, and so certain conflicts emerged. I do not think that it is for me as an official to make my own analysis of why these relationships became strained and broke down. The report states, as a matter of fact, that they did. I think that, in my experience, when there is a breakdown in the relationship it is always due to a conflict of objectives or of personality or both. However, I do not think that it is part of my role to analyse why these things happen. As officials we just have to manage within them.

[89] **Janet Davies:** The question is really concerned with whether there were conflicting objectives that would never be resolved between the two bodies. What did this breakdown mean for officials in Cathays Park? Did it affect their involvement in the wind-up process, particularly if there were conflicting objectives?

Mr Shortridge: What it meant for us was that we increasingly became aware that, if matters were left to run on the basis of the theoretical approach that I referred to earlier in my evidence, and if we just allowed things to continue, then there would be deadlock and the objective of securing an orderly and timely wind-up of the development corporation would be at serious risk. So, in those circumstances, we—not only officials but Ministers as well—sought increasingly

hynny, efallai y gallem ystyried perthynas waith y gorfforaeth gyda Chyngor Dinas a Sir Caerdydd. Cyfeiria'r adroddiad at rai tensiynau. Mr Shortridge, o edrych ar faterion yn ymwneud â methiant yn y berthynas waith rhwng Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd a chyngor Caerdydd, beth yw eich dealltwriaeth chi o'r rheswm pam y digwyddodd y methiant, a pha bryd y daeth i'ch sylw chi?

Mr Shortridge: Gadewch imi gymryd rhan olaf y cwestiwn yn gyntaf. Deuthum i wybod amdano'n bersonol yn 1997, pan ddeuthum yn Gyfarwyddwr Materion Economaidd. Fodd bynnag, yr wyf yn meddwl—gall Steve fy nghywiro os wyf yn anghywir—mai oddeutu'r adeg honno, drwy gyd-ddigwyddiad, y dechreuodd y materion dirwyn i ben ddod i derfyn, ac felly daeth ambell wrthdrawiad i'r wyneb. Nid wyf yn meddwl mai mater i mi fel swyddog yw gwneud fy nadansoddiad fy hun o pam y datblygodd straen yn y perthynasau hyn ac y bu iddynt fethu. Noda'r adroddiad, fel mater o ffaith, fod hynny wedi digwydd. Credaf, yn fy mhrofiad i, pan fo perthynas yn methu fod hynny bob amser o ganlyniad i wrthdaro amcanion neu bersonoliaethau, neu'r ddau. Fodd bynnag, nid wyf yn meddwl ei bod yn rhan o'm rôl i i ddadansoddi pam y mae'r pethau hyn yn digwydd. Fel swyddogion, mae'n rhaid inni ddygnu ymlaen o fewn iddynt.

[89] **Janet Davies:** Gwir ddiben y cwestiwn yw canfod a oedd gwrthdaro amcanion rhwng y ddau gorff na ellid byth mo'i ddatrys. Beth oedd y methiant hwn yn ei olygu i swyddogion ym Mharc Cathays? A effeithiodd ar eu cyfraniad at y broses ddirwyn i ben, yn enwedig os oedd gwrthdrawiad amcanion?

Mr Shortridge: Yr hyn a olygodd i ni oedd inni ddod yn fwyfwy ymwybodol, pe gadewid pethau i redeg ar sail y dull damcaniaethol y cyfeiriais ato yn gynharach yn fy nhystiolaeth, a phe baem yn gadael pethau fel yr oeddent, yna y byddai popeth yn pallu a byddai perygl difrifol i'r nod o sicrhau dirwyn y gorfforaeth ddatblygu i ben yn drefnus ac amserol. Felly, yn yr amgylchiadau hynny, ceisiasom ni—nid swyddogion yn unig ond Gweinidogion

to involve ourselves in the process in order to do all that we could to facilitate this orderly wind-up. That meant that, increasingly, we were acting as intermediaries between certain organisations. As a reflection of that, we decided to adopt the approach of having memoranda of understanding, which we, as Assembly officials, essentially, brokered between the relevant parties.

[90] **Janet Davies:** We will now break for coffee.

[*Cynhaliwyd egwyl goffi rhwng 3.20 p.m. a 3.30 p.m.*]
[*A coffee break was held between 3.20 p.m. and 3.30 p.m.*]

[91] **Janet Davies:** We will continue with the specific issues and move to the sale of the corporation's land at the Ferry Road peninsula. Mr Shortridge, why did your officials facilitate the sale of this land, given that the Assembly's sponsored body, the corporation, did not support the council's sports village proposals because it had reservations about the scheme's financial viability?

Mr Shortridge: The view that we took was that there needed to be, if at all possible, an agreed solution to the development of the Ferry Road site. The important thing to remember about the Ferry Road site is that its location is such as to make it a very prime site. However, its contaminated condition meant that it was always going to be a very difficult site to develop. The corporation, while it was not attracted to the idea of having a sports village there, did not, within its expected life cycle, have an alternative viable proposition to develop it. So I suppose that the alternatives that we faced were its being transferred to the WDA as a site that would require extensive reclamation and then marketing on the one hand, or its being transferred to the local authority. The local authority did have a proposed use for the site, and with the demise of the development corporation, the local authority would be the local planning authority for this site. So if that was the use to which the local democratic body wanted to put this site, that was a very persuasive argument for seeking to find a solution that was acceptable to it.

hefyd—ymwneud mwyfwy â'r broses er mwyn gwneud y cyfan a allem i hwyluso'r dirwyn i ben trefnus hwn. Golygai hynny ein bod, fwyfwy, yn gweithredu fel canolwyr rhwng cyrff arbennig. I adlewyrchu hynny, penderfynasom ddefnyddio dull fyddai'n cynnwys memoranda dealltwriaeth, y gwnaethom ni, fel swyddogion y Cynulliad, eu trefnu drwy weithredu fel cyfryngwyr, i bob pwrpas, rhwng y partiön perthnasol.

[90] **Janet Davies:** Cymerwn egwyl yn awr am goffi.

[91] **Janet Davies:** Awn ymlaen gyda'r materion penodol a symud at werthiant tir y gorfforaeth ym mhenrhyn Ferry Road. Mr Shortridge, pam y gwnaeth eich swyddogion hwyluso gwerthiant y tir hwn, o gofio nad oedd y corff a noddid gan y Cynulliad, sef y gorfforaeth, yn cefnogi cynigion y cyngor ar gyfer pentref chwaraeon am fod ganddi amheuan ynghylch ymarferoldeb ariannol y cynllun?

Mr Shortridge: Ein golwg ni ar bethau oedd bod angen sicrhau, os oedd modd o gwbl, ateb y cytunid arno ar gyfer datblygu safle Ferry Road. Y peth pwysig i'w gofio am safle Ferry Road yw bod ei leoliad yn ei wneud yn safle deniadol iawn. Fodd bynnag, oherwydd ei gyflwr halogedig yr oedd bob amser yn mynd i fod yn safle anodd iawn i'w ddatblygu. Er nad oedd y gorfforaeth yn hoffi'r syniad o gael pentref chwaraeon yno, nid oedd ganddi, o fewn ei hoes ddisgwylidig, gynnig ymarferol arall ar gyfer ei ddatblygu. Felly mae'n debyg mai'r dewisiadau a wynebem oedd ei drosglwyddo i'r WDA fel safle a fyddai'n galw am waith adennill helaeth ac wedyn ei farchnata ar y naill law, neu ei drosglwyddo i'r awdurdod lleol. Yr oedd gan yr awdurdod lleol ddefnydd arfaethedig i'r safle, a chyda diflaniad y gorfforaeth ddatblygu, yr awdurdod lleol fyddai'r awdurdod cynllunio lleol y safle hwn. Felly os mai dyna'r defnydd yr oedd y corff democrataidd lleol yn ei ddeisyfu ar gyfer y safle hwn, yr oedd hynny'n ddadl gref iawn dros geisio cael ateb a fyddai'n dderbyniol ganddo.

[92] **Helen Mary Jones:** To pursue the Ferry Road issue, paragraph 64 of the report refers to the fact that the corporation was initially an unwilling vendor but that its board approved the sale subject to receiving assurances from the Assembly on its regularity, propriety and value for money. How did you satisfy yourself on these issues and what assurances were given to the corporation in this regard?

Mr Shortridge: The basic way in which I satisfied myself was through the integrity of the process that we went through in order to secure a negotiated outcome that was satisfactory not only to the council, but also to the other major landowner, Grosvenor Waterside. The process that we used was in accordance with the guidebook on wind-up matters, and we ensured that, at all stages, we had independent valuations to back up the various figures that were involved in the deal, which are set out in the report.

[93] **Helen Mary Jones:** Turning to the valuation of Ferry Road, you said that this is a prime site despite its complex, contaminated condition. Can you therefore please explain how the amount of £7.95 million, as reported in figure 13 in the report, was arrived at? How did you, or rather they, arrive at that figure?

Mr Shortridge: Well it was—I get my dates muddled up—the Welsh Office/Assembly at the time was the prime mover in determining the valuation. We instructed Gooch Webster to produce a value for the site that took account of the extant optimum use in the local plan for the site, but also the contaminated condition of the land and the associated liabilities. It came up with a figure, based on vacant possession, of £16.5 million. All the parties to the agreement were prepared to agree to that as a reasonable valuation, albeit in pretty uncertain circumstances.

[94] **Helen Mary Jones:** May I pursue that a little further, because it is correct, is it not, that the valuation arrived at was not the highest valuation that was obtained? Were you satisfied, as Accounting Officer, that it

[92] **Helen Mary Jones:** I fynd ymhellach ar fater Ferry Road, cyfeiria paragraff 64 yr adroddiad at y ffaith fod y gorfforaeth ar y dechrau yn werthwr anfodlon ond bod ei bwrdd wedi cymeradwyo'r gwerthiant ar yr amod y ceid sicrwydd gan y Cynulliad fod y gwerthiant yn rheolaidd, yn briodol ac yn rhoi gwerth am arian. Sut y gwnaethoch fodloni eich hun ar y materion hyn a pha sicrwydd a roddwyd i'r gorfforaeth yn hyn o beth?

Mr Shortridge: Y ffordd sylfaenol y bodlonais fy hun oedd drwy gywirdeb y broses yr aethom drwyddi er mwyn sicrhau canlyniad wedi'i negodi, a oedd yn dderbyniol nid yn unig gan y cyngor, ond hefyd gan y prif berchennog tir arall, sef Grosvenor Waterside. Yr oedd y broses a ddefnyddiasom yn unol â'r llawlyfr ar faterion dirwyn i ben, ac fe sicrhawyd, bob cam o'r ffordd, fod gennym brisiadau annibynnol i ategu'r amryfal ffigurau a oedd yn rhan o'r busnes, a amlinellir yn yr adroddiad.

[93] **Helen Mary Jones:** Gan droi at brisiad safle Ferry Road, dywedasochoch fod hwn yn safle deniadol er gwaethaf ei gyflwr cymhleth, halogedig. A allwch esbonio felly sut y daethpwyd at y swm o £7.95 miliwn, fel a gofnodir yn ffigur 13 yn yr adroddiad? Sut y daethoch chi, neu y daethant hwy yn hytrach, at y ffigur hwnnw?

Mr Shortridge: Wel, y Swyddfa Gymreig neu'r Cynulliad ar y pryd—yr wyf yn drysu fy nyddiadau—oedd y prif gorff a fynnodd y prisiad. Rhoesom gyfarwyddiadau i Gooch Webster roi pris ar y safle a fyddai'n ystyried y defnydd gorau a ragwelid yn y cynllun lleol ar gyfer y safle, ond hefyd gyflwr halogedig y tir a'r rhwymedigaethau cysylltiedig. Darparwyd ffigur, yn seiliedig ar feddiant gwag, o £16.5 miliwn. Yr oedd yr holl bartïon a oedd yn rhan o'r cytundeb yn barod i gytuno ar hynny fel prisiad rhesymol, er iddo gael ei wneud mewn amgylchiadau go ansicr.

[94] **Helen Mary Jones:** A gaf fi fynd ychydig ymhellach ar ôl hynny, oherwydd y mae'n gywir, onid yw, nad y prisiad hwn oedd y prisiad uchaf a gafwyd? A oeddech yn fodlon, fel Swyddog Cyfrifon, ei bod yn

was appropriate for this land to be sold for an amount that was lower than that which might have been achieved on the open market?

Mr Shortridge: I do not think that there is any evidence to suggest that if this site had been put up for sale on the open market, you would have received anything like £16.5 million for it. I think that the range of valuations that were in the consultant's report, from plus £35 million to minus £2.5 million, indicated how much uncertainty there was around this site and also around the potential uses for the site. I took my assurance from the fact that we had employed independent consultants to produce a valuation, which was then tested, not only by ourselves as officials, but by other interested people in this negotiation.

[95] **Alun Cairns:** I will go back to an earlier question and draw your attention to paragraph 65. In relation to the corporation's view, its internal auditors stated:

'the procedures adopted in respect of Ferry Road... were not in accordance with the Corporation's standard procedures for land disposals or the requirements of the Financial Memorandum. We understand that this matter was raised with the National Assembly, who advised that this was a wind-up and succession issue rather than a commercial sale.'

How did you reach that conclusion?

Mr Shortridge: I think that at the time, as a matter of fact, Ferry Road had been put into the memoranda of understanding, which were setting out the heads of terms for the transfer arrangements. Therefore, by definition, at that time, the Ferry Road site was being dealt with in accordance with the wind-up and succession arrangements.

[96] **Alun Cairns:** Continuing with the Ferry Road issue, paragraph 64 of the report makes reference to the fact that the corporation was, initially, an unwilling vendor. However, its board approved the sale subject—

We have covered that question. I am sorry.

briodol gwerthu'r tir hwn am swm a oedd yn is na'r hyn y gallesid ei gael ar y farchnad agored?

Mr Shortridge: Nid wyf yn meddwl fod yna unrhyw dystiolaeth i awgrymu y cawsid unrhyw beth tebyg i £16.5 miliwn am y safle hwn pe bai wedi'i roi ar werth ar y farchnad agored. Yr wyf yn meddwl fod yr amrediad o brisiau a gafwyd yn adroddiad yr ymgynghorydd, o plws £35 miliwn i minws £2.5 miliwn, yn arwydd o'r ansicrwydd a fodolai ynghylch y safle hwn a hefyd ynghylch y defnyddiau posibl i'r safle. Cymerais fy sicrwydd o'r ffaith ein bod wedi cyflogi ymgynghorwyr annibynnol i wneud prisiad, a gafodd ei roi ar brawf wedyn, nid yn unig gennym ni fel swyddogion, ond gan bobl eraill oedd â diddordeb yn y negodi hwn.

[95] **Alun Cairns:** Af yn ôl at gwestiwn cynharach a thynnu'ch sylw at baragraff 65. Mewn perthynas â barn y gorfforaeth, nododd ei harchwilwyr mewnol:

'nid oedd y gweithdrefnau a fabwysiadwyd parthed Ferry Road... yn unol â gweithdrefnau safonol y Gorfforaeth ar gyfer gwerthu tir na gofynion y Memorandwm Ariannol. Deallwn i'r mater hwn gael ei godi gyda'r Cynulliad Cenedlaethol, a nododd ei fod yn fater yn ymwneud â dirwyn y Gorfforaeth i ben a'r olyniant yn hytrach na gwerthiant masnachol.'

Sut y daethoch i'r casgliad hwnnw?

Mr Shortridge: Yr wyf yn meddwl fod Ferry Road ar y pryd, mewn gwirionedd, wedi'i roi yn y memoranda dealltwriaeth, a oedd yn amlinellu penawdau'r telerau ar gyfer y trefniadau trosglwyddo. Felly, drwy ddiffiniad, ar y pryd hwnnw yr oeddid yn delio â safle Ferry Road yn unol â'r trefniadau dirwyn i ben ac olynu.

[96] **Alun Cairns:** Ar fater Ferry Road o hyd, cyfeiria paragraff 64 yn yr adroddiad at y ffaith fod y gorfforaeth, ar y cychwyn, yn werthwr anfodlon. Fodd bynnag, cymeradwyodd ei bwrdd y gwerthiant yn amodol—

Yr ydym wedi ymdrin â'r cwestiwn hwnnw.

Looking at paragraphs 68 to 70, and the additional £2 million discount given on top of the reduced valuation, it is clear, in paragraph 69, how £1.1 million of that £2 million—in lieu of land previously offered for the replacement of the Empire Pool—was arrived at. The further £900,000 discount was given in relation to wider economic benefits. How was that amount arrived at?

Mr Shortridge: The valuation that we had was based upon what I have described as a sort of optimum use within the local plan. The proposed use, the building of the sports village, would have actually reduced the commercial value of the site. The advice that we had from our consultants was that the wider economic benefits that would accrue from building a sports village on the site, could be valued at at least £2 million. As it happened, you could balance out £1.1 million of that against the commitment to make a site available for a swimming pool.

[97] **Alun Cairns:** On the matter of the site of the swimming pool in particular, is it not the case that a national swimming pool for Wales is being built in Swansea?

Mr Shortridge: Yes.

[98] **Alun Cairns:** How can we reconcile a swimming pool being built in Swansea in place of the Empire Pool with the additional funds and discounts being given to Cardiff council to replace the very same pool?

Mr Shortridge: My understanding is that, because the Empire Pool was to be replaced, the development corporation had offered a site to the council for that replacement facility, so there was a commitment to do that.

[99] **Alun Cairns:** The establishment of a national swimming pool for Wales in Swansea did not affect that arrangement in any way?

Mr Phillips: The basic answer to the question is 'no'. However, around about the same time that this proposal was being put together—I am talking here of early 1999—

Mae'n ddrwg gennyf. O edrych ar baragraffau 68 i 70, a'r disgownt ychwanegol o £2 filiwn a roddwyd ar ben y prisiad is, mae'n glir, ym mharagraff 69, sut y daethpwyd at £1.1 miliwn o'r £2 filiwn hynny—sef yn lle tir a gynigiwyd yn flaenorol ar gyfer yr Empire Pool newydd. Rhoddwyd y £900,000 o ddisgownt pellach mewn perthynas â buddiannau economaidd ehangach. Sut y cyrhaeddwyd y swm hwnnw?

Mr Shortridge: Yr oedd y prisiad a gawsom yn seiliedig ar yr hyn a ddisgrifiais fel math o ddefnydd gorau posibl o fewn y cynllun lleol. Byddai'r defnydd arfaethedig, sef adeiladu'r pentref chwaraeon, mewn gwirionedd wedi lleihau gwerth masnachol y safle. Y cyngor a gawsom gan ein hymgyngorwyr oedd y gellid rhoi gwerth o £2 filiwn o leiaf ar y manteision economaidd ehangach a ddeilliai o adeiladu pentref chwaraeon ar y safle. Fel y digwyddai, gallech gydbwyso £1.1 miliwn o hynny yn erbyn yr ymrwymiad i ddarparu safle ar gyfer pwll nofio.

[97] **Alun Cairns:** Ar fater safle'r pwll nofio yn benodol, onid yw'n wir fod pwll nofio cenedlaethol i Gymru'n cael ei adeiladu yn Abertawe?

Mr Shortridge: Ydyw.

[98] **Alun Cairns:** Sut y gallwn ni gysoni adeiladu pwll nofio yn Abertawe i gymryd lle'r Empire Pool â'r cyllid a'r disgowntiau ychwanegol a roddir i gyngor Caerdydd i gymryd lle'r union bwll hwnnw?

Mr Shortridge: Yn ôl a ddeallaf fi, oherwydd bod pwll nofio newydd i gymryd lle'r Empire Pool, yr oedd y gorfforaeth ddatblygu wedi cynnig safle i'r cyngor ar gyfer y pwll hwnnw, felly yr oedd ymrwymiad i wneud hynny.

[99] **Alun Cairns:** Nid effeithiwyd ar y trefniant hwnnw mewn unrhyw fodd wrth sefydlu pwll nofio cenedlaethol i Gymru yn Abertawe?

Mr Phillips: 'Na' yw'r ateb sylfaenol i'r cwestiwn. Fodd bynnag, oddeutu'r un pryd ag yr oedd y cynnig hwn yn cael ei lunio—yr wyf yn sôn yma am ddechrau 1999—yr oedd

Cardiff, Swansea and Newport, as I recall, were bidding for a Sportlot grant. The successful bidder was, in fact, Swansea—if you are referring to the facility at Sketty Lane, near the university. The facility in Swansea is not identical in concept to the proposed sports village. As I understand it, the facility in Swansea is effectively a training facility, whereas this is more of a training and leisure facility, with diving facilities and so on. Cardiff council, as I said, was unsuccessful in its bid for Sportlot funding, but decided to pursue the project and the acquisition of the Ferry Road site separately.

[100] **Alun Cairns:** So, what we are saying then is that, although Cardiff was unsuccessful in its Sportlot application, it received in place of that a discount of £2 million on the land at Ferry Road?

Mr Phillips: Not in place of it; it received the £2 million discount for the reasons explained by the Permanent Secretary in relation to the wider economic and social benefits that the sports village would have brought, in our estimation. We identified a number of criteria against which we would judge that: specifically, the creation of jobs, the level of expenditure that would be generated, and the number of visitors to the bay.

[101] **Alun Cairns:** To return to the £6.1 million for other regeneration that we discussed earlier, if you add that to the discount of £2 million—although the sum was reduced from the maximum amount that could potentially have been available through auctioning the land—Cardiff received a benefit of £8.1 million in the successor arrangements, just in those two schemes. Is that the case?

Mr Phillips: Yes, you could look at it in those terms.

[102] **Alun Cairns:** So Cardiff received the benefit of £8 million over and above what other local authorities around Wales would have received during that year of financial allocation, during the standard spending assessment and so on.

Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd, yn ôl a gofiau, yn ymgeisio am grant Sportlot. Abertawe, mewn gwirionedd, oedd yr ymgeisydd llwyddiannus—os ydych chi'n cyfeirio at y cyfleuster yn Lôn Sgeti, ger y brifysgol. Nid yw'r cyfleuster yn Abertawe yr un peth o ran cysyniad â'r pentref chwaraeon arfaethedig. Yn ôl a ddeallaf fi, cyfleuster hyfforddi i bob pwrpas yw'r cyfleuster yn Abertawe, tra bod hwn yn fwy o gyfleuster hyfforddi a hamdden, gyda chyfleusterau deifio ac ati. Fel y dywedais, methodd cyngor Caerdydd, â'i gais am arian Sportlot, ond penderfynodd fwrw ymlaen â'r prosiect a phrynu safle Ferry Road ar wahân.

[100] **Alun Cairns:** Felly, yr hyn yr ydym yn ei ddweud yw, er bod cais Sportlot Caerdydd yn aflwyddiannus, y derbyniodd yn lle hynny ddisgownt o £2 filiwn ar y tir yn Ferry Road?

Mr Phillips: Nid yn lle hynny; derbyniodd y disgownt o £2 filiwn am y rhesymau a esboniwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol parthed y manteision economaidd a chymdeithasol ehangach y buasai'r pentref gwyliau wedi'u cyflwyno, yn ein tyb ni. Nodwyd nifer o feini prawf y byddem yn barnu hynny yn eu herbyn: yn benodol, creu swyddi, y lefel gwariant a gynhyrchid, a'r nifer o ymwelwyr i'r bae.

[101] **Alun Cairns:** I ddod yn ôl at y £6.1 miliwn ar gyfer gwaith adfywio arall a drafodwyd gennym yn gynharach, os ychwanegwch hynny at y disgownt o £2 filiwn—er y gostyngwyd y swm o'r swm mwyaf a allasai fod ar gael drwy werthu'r tir mewn ocsiwn—derbyniodd Caerdydd fudd o £8.1 miliwn yn y trefniadau olyn, yn y ddau gynllun hynny'n unig. A yw hynny'n wir?

Mr Phillips: Ydyw, fe allech edrych arni yn y termau hynny.

[102] **Alun Cairns:** Felly derbyniodd Caerdydd £8 miliwn uwchlaw a thros ben y dyraniad ariannol y byddai awdurdodau lleol eraill o gwmpas Cymru wedi'i dderbyn yn ystod y flwyddyn honno, yn ystod yr asesiad gwariant safonol ac ati.

Mr Shortridge: I think that the point to emphasise is that the objective here was, and continued to be, one of urban regeneration and not one of maximising income or revenue. It was the regeneration objective that we had very much in mind when putting together the arrangements at Ferry Road.

[103] **Alun Cairns:** Who took the final decision to give this discount of £2 million?

Mr Shortridge: That would have been a ministerial decision.

[104] **Alun Cairns:** Right. So that was a ministerial decision. Which constituency does the land of Ferry Road fall into?

Mr Shortridge: I would think that it is Lorraine Barrett's constituency.

Mr Phillips: Cardiff South and Penarth, I think, yes.

[105] **Alun Cairns:** I asked you earlier how we manage conflicts of interest if there may be a ministerial interest in the negotiation and transfer of assets. Was there any form of conflict of interest, or the potential for a perception of a conflict of interest, if a Minister at the time happened to be the Member of Parliament for that constituency?

Mr Shortridge: As I said in answer to your earlier questions, these are ultimately judgments for the Ministers concerned. However, throughout this process, as officials, we sought to ensure that more than one Minister was involved in the process.

[106] **Alun Cairns:** May I clarify that the Member of Parliament at the time, who was also the Secretary of State for Wales or the First Minister of the Assembly during that time, played a leading role in the sanctioning of a £2 million discount for a parcel of land that happened to fall into Cardiff South and Penarth?

Mr Shortridge: He had an important role to play, yes.

Mr Shortridge: Credaf mai'r pwynt i'w bwysleisio yw mai'r amcan yn y fan hon oedd, ac yw o hyd, adfywio trefol ac nid mwyhau incwm neu refeniw. Yr amcan adfywio oedd yn flaenllaw yn ein meddyliau wrth inni lunio'r trefniadau ar gyfer Ferry Road.

[103] **Alun Cairns:** Pwy wnaeth y penderfyniad terfynol i roi'r disgownt £2 filiwn hwn?

Mr Shortridge: Penderfyniad gweinidog fyddai hynny.

[104] **Alun Cairns:** Iawn. Penderfyniad gweinidog oedd hwnnw felly. Ym mha etholaeth y mae'r tir yn Ferry Road?

Mr Shortridge: Etholaeth Lorraine Barrett, fe dybiwn i.

Mr Phillips: De Caerdydd a Phenarth, yr wyf yn meddwl, ie.

[105] **Alun Cairns:** Gofynnais ichi yn gynharach sut y byddwn ni'n ymdrin â gwrthdaro buddiannau os gall fod budd gweinidogol ynghlwm wrth broses negodi a throsglwyddo asedau. A oedd yna unrhyw ffurf ar wrthdrawiad buddiannau, neu botensial ar gyfer credu bod gwrthdrawiad buddiannau, os oedd Gweinidog ar y pryd yn digwydd bod yn Aelod Seneddol dros yr etholaeth honno?

Mr Shortridge: Fel y dywedais wrth ateb eich cwestiynau cynharach, materion ar gyfer doethineb y Gweinidogion dan sylw yw'r rhain yn y pen draw. Fodd bynnag, drwy gydol y broses hon, fel swyddogion, ceisiasom sicrhau fod mwy nag un Gweinidog yn ymwneud â'r broses.

[106] **Alun Cairns:** A gaf i eglurhad fod yr Aelod Seneddol ar y pryd, a oedd hefyd yn Ysgrifennydd Gwladol Cymru neu'n Brif Weinidog y Cynulliad yn ystod y cyfnod hwnnw, wedi chwarae rhan flaenllaw yn awdurdodi disgownt o £2 filiwn am barsel o dir a ddigwyddai fod o fewn De Caerdydd a Phenarth?

Mr Shortridge: Yr oedd ganddo ran bwysig i'w chwarae, oedd.

[107] **Helen Mary Jones:** I have a brief supplementary on this matter. May I refer you back to your earlier comments about the kind of advice that you, as officials, would give to Ministers? Clearly, the Minister in question was not the Assembly Member for Cardiff South and Penarth at that time. However, he was the Member of Parliament for Cardiff South and Penarth and, for a variety of reasons, very strongly identified with that area. The kind of advice that you might give to a Minister in those circumstances would obviously relate primarily to her or his position within the Assembly, potential constituency interests and those sorts of things. However, would you also take into account what could almost be considered an outside interest for somebody who happens to represent one constituency here but a different constituency at Westminster, or has another strong interest, whatever that might be? Would it be an appropriate step for you, as officials, to draw that potential conflict of interest to the Minister's attention, even though it did not directly relate to the Assembly?

Mr Shortridge: We try, as officials, to draw Ministers' attention to matters such as this. It is not our ultimate responsibility to do so, and it would be difficult for us to do so at times, because we are far less aware of a Member's constituency than the Member is. In particular, for those Members who represent regions as opposed to constituencies, it is a tricky issue. So I try to be very careful. We do our best to draw such things to Ministers' attention, but ultimately, it must be a matter for them.

[108] **Helen Mary Jones:** May I ask directly whether the interest in question was drawn to the attention of the Minister responsible?

Mr Shortridge: Throughout the process, the Minister concerned was well aware of the duality of his interests. I use the word 'duality' because I do not want to prejudge it by saying that it was a conflict. It was for that reason that, to the best of my recollection, no key decision was taken by him alone. Papers

[107] **Helen Mary Jones:** Mae gennyf gwestiwn atodol byr ar y mater hwn. A gaf eich cyfeirio'n ôl at eich sylwadau blaenorol ynghylch y math o gyngor y byddech chi, fel swyddogion, yn ei roi i Weinidogion? Yn amlwg, nid oedd y Gweinidog dan sylw yn Aelod Cynulliad dros Dde Caerdydd a Phenarth ar y pryd. Fodd bynnag, yr oedd yn Aelod Seneddol dros Dde Caerdydd a Phenarth ac, am amryfal resymau, yr oedd wedi'i uniaethu'n gryf iawn â'r ardal honno. Byddai'r math o gyngor y byddech chi efallai'n ei roi i Weinidog yn yr amgylchiadau hynny yn amlwg yn ymwneud yn bennaf â'i safle ef neu hi yn y Cynulliad, buddiannau etholaethol posibl a'r math yna o beth. Fodd bynnag, a fyddech chi hefyd yn cymryd i ystyriaeth yr hyn y gellid bron ei ystyried yn fudd allanol i rywun sydd yn digwydd cynrychioli un etholaeth yma ond etholaeth wahanol yn San Steffan, neu sydd â buddiant cryf arall, beth bynnag y gallai hynny fod? A fyddai'n gam priodol i chi, fel swyddogion, ddwyn sylw'r Gweinidog at y darpar wrthdaro buddiannau hwnnw, er nad oedd a wnelo'r peth yn uniongyrchol â'r Cynulliad?

Mr Shortridge: Byddwn yn ceisio, fel swyddogion, dynnu sylw Gweinidogion at faterion fel hyn. Nid ein cyfrifoldeb ni yn y pen draw yw gwneud hynny, a byddai'n anodd inni wneud ar adegau, oherwydd yr ydym yn llawer llai ymwybodol o etholaeth Aelod nag ydyw'r Aelod ei hun. Yn arbennig, gyda'r Aelodau hynny sydd yn cynrychioli rhanbarthau yn hytrach nag etholaethau, mae'n gwestiwn dyrys. Felly ceisiaf fod yn ofalus iawn. Gwnawn ein gorau i dynnu'r pethau hyn i sylw Gweinidogion, ond ar ddiwedd y dydd, mater iddynt hwy ydyw, o reidrwydd.

[108] **Helen Mary Jones:** A gaf i ofyn yn uniongyrchol a dynnwyd sylw'r Gweinidog cyfrifol at y buddiant dan sylw?

Mr Shortridge: Drwy gydol y broses, yr oedd y Gweinidog dan sylw'n ymwybodol iawn o ddeuolrwydd ei fuddiannau. Defnyddiaf y gair 'deuolrwydd' oherwydd nid oes arnaf eisiau ei ragfarnu drwy ddweud mai gwrthdaro ydoedd. Dyna oedd y rheswm, yn ôl a gofiaf fi, na chymerwyd unrhyw

were going to other Ministers at the same time, so there was more of a collective Cabinet decision-making process. I think that, as a matter of practice, at all key points, the Assembly was told what was happening.

[109] **Alun Cairns:** In my general question on the potential for conflict of interest, you said that it is usual that other Ministers take responsibility. Why did that not happen in this instance?

Mr Shortridge: I do not think that I said that they take responsibility. I think that what I said was that other Ministers would have been involved in the decision-making process.

[110] **Alun Cairns:** Please accept my apologies.

Mr Shortridge: The record will show which one of us is right.

[111] **Alun Cairns:** Of course it will. Is it not usual that, in difficult circumstances, Ministers would not play any role?

Mr Shortridge: These are judgments for them and although in some circumstances I can be asked for my advice, and will give it to them privately, whatever advice I give, these are judgments for Ministers.

[112] **Alun Cairns:** Were you asked for advice at the time? It is a 'yes' or 'no' answer, I would have thought.

Mr Shortridge: We offered some advice, but I do not think that we were asked for it. So it is not quite a 'yes' or 'no' answer. It is also the case that the Minister concerned came and made statements to the Assembly, so he was in a position to answer directly to the Assembly for the decisions that he was involved in taking.

[113] **Alun Cairns:** You offered advice. Was it fully accepted and acted upon?

Mr Shortridge: Chair, I really do not want

benderfyniad allweddol ganddo ef yn unig. Yr oedd papurau'n mynd at Weinidogion eraill ar yr un pryd, felly yr oedd proses fwy torfol ar waith ym mhenderfyniadau'r Cabinet. Yr wyf yn credu, fel mater o ymarfer, y dywedwyd wrth y Cynulliad ar bob cam allweddol beth oedd yn digwydd.

[109] **Alun Cairns:** Yn fy nghwestiwn cyffredinol ar y potensial ar gyfer gwrthdaro buddiannau, dywedasoeh ei bod yn arferol i Weinidogion eraill gymryd cyfrifoldeb. Pam na ddigwyddodd hynny yn yr achos hwn?

Mr Shortridge: Nid wyf yn meddwl imi ddweud eu bod yn cymryd cyfrifoldeb. Yr wyf yn meddwl mai'r hyn a ddywedais oedd y byddai Gweinidogion eraill wedi bod â rhan yn y broses benderfynu.

[110] **Alun Cairns:** Derbyniwch fy ymddiheuriadau, os gwelwch yn dda.

Mr Shortridge: Bydd y cofnod yn dangos pa un ohonom sydd yn iawn.

[111] **Alun Cairns:** Wrth gwrs y bydd. Onid yw'n arferol, mewn amgylchiadau anodd, na fyddai Gweinidogion yn chwarae rhan o gwbl?

Mr Shortridge: Materion iddynt hwy farnu arnynt yw'r rhain ac er y gellir gofyn am fy nghyngor i mewn rhai amgylchiadau, a'i gael yn breifat, pa gyngor bynnag a roddaf fi, mater i'r Gweinidogion eu barnu yw'r rhain.

[112] **Alun Cairns:** A ofynnwyd ichi am gyngor ar y pryd? 'Do' neu 'naddo' yw'r ateb, dybiwn i.

Mr Shortridge: Fe gynigiasom gyngor, ond nid wyf yn meddwl y gofynnwyd inni amdano. Felly nid 'do' na 'naddo' yn hollol yw'r ateb. Mae'n wir hefyd y daeth y Gweinidog dan sylw a gwneud datganiadau i'r Cynulliad, felly yr oedd ef mewn sefyllfa i ateb yn uniongyrchol i'r Cynulliad am y penderfyniadau yr oedd ganddo ran yn eu gwneud.

[113] **Alun Cairns:** Cynigiasoch gyngor. A dderbyniwyd ef yn llawn a gweithredu arno?

Mr Shortridge: Gadeirydd, yn wir nid oes

to pursue this.

[114] **Janet Davies:** We have pursued this line far enough.

Mr Shortridge: May I just say, because I do not want people to draw one conclusion rather than another from this exchange, that, as officials, we sought to ensure that this process was undertaken in a thoroughly professional way.

[115] **Helen Mary Jones:** Whether it was or not, was a matter for the Members.

[116] **Alun Cairns:** Before I ask my final two questions, and with the permission of the Chair, of course, may I ask whether you think that public perception of such issues is of critical importance?

Mr Shortridge: I do not think that I want to be drawn on that. These are matters for Ministers and politicians. As Accounting Officer, I have to satisfy myself that decisions are taken properly, particularly where those decisions involve large sums of money, and that is what I have sought to do throughout this process.

[117] **Alun Cairns:** Why was the sale of the land, in effect, a cashless transaction, which resulted in up to £850,000 of lost interest to the Assembly? How can this be justified on value for money grounds?

Mr Shortridge: I think that it was a cashless transaction largely for reasons of convenience, although Steve Phillips may want to elaborate on that. While I think that, in theory, it may have resulted in a loss of interest, in practice, when all the audited accounts are looked at, I think that it is unlikely that it will have.

Mr Phillips: I can only add that, effectively, the position that we were in was that, on 31 March 2000, the £6.1 million—or at least the first tranche of it—was payable to Cardiff City and County Council under the wind-up arrangements. On the same day, the transaction, or the disposal, of the Ferry Road site was completed, with the effect that Cardiff council was due to pay £5.95 million.

arnaf awydd mynd ar ôl y mater hwn.

[114] **Janet Davies:** Yr ydym wedi dilyn y trywydd hwn yn ddigon pell.

Mr Shortridge: A gaf fi ddweud, gan nad oes arnaf eisiau i bobl dynnu un casgliad rhagor nag un arall o'r sgwrs hon, y bu i ni fel swyddogion geisio sicrhau yr ymgymerydd â'r broses hon mewn ffordd gwbl broffesiynol.

[115] **Helen Mary Jones:** Pa un ai a wnaed hynny ai peidio, yr oedd yn fater i'r Aelodau.

[116] **Alun Cairns:** Cyn imi ofyn fy nau gwestiwn olaf, a chyda chaniatâd y Cadeirydd, wrth gwrs, a gaf fi ofyn a ydych yn meddwl fod y ffordd y mae'r cyhoedd yn amgyffred y materion hyn o bwys critigol?

Mr Shortridge: Nid wyf yn meddwl yr hoffwn ddweud dim ar hynny. Materion i Weinidogion a gwleidyddion yw'r rhain. Fel Swyddog Cyfrifon, mae'n rhaid imi fodloni fy hun fod penderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd priodol, yn enwedig lle bo'r penderfyniadau hynny'n ymwneud â symiau mawr o arian, a dyna yr wyf wedi ceisio'i wneud drwy gydol y broses hon.

[117] **Alun Cairns:** Pam yr oedd gwerthiant y tir, mewn effaith, yn drafodiad di-arian, a olygodd bod y Cynulliad yn colli hyd at £850,000 mewn llog? Sut y gellir cyfiawnhau hyn ar sail gwerth am arian?

Mr Shortridge: Yr wyf yn meddwl ei fod yn drafodiad di-arian yn bennaf am resymau cyfleustra, er efallai y dymuna Steve Phillips ymhelaethu ar hynny. Er fy mod yn meddwl, mewn theori, ei fod efallai wedi arwain at golli llog, mewn ymarfer, pan edrychir ar yr holl gyfrifon archwiliedig, credaf ei bod yn annhebygol y bydd hynny wedi digwydd.

Mr Phillips: Ni allaf ond ychwanegu mai'r sefyllfa yr oeddem ynddi, mewn gwirionedd, oedd bod y £6.1 miliwn—neu o leiaf y rhandal cyntaf ohono—yn daladwy i Gyngor Sir a Dinas Caerdydd ar 31 Mawrth dan y trefniadau dirwyn i ben. Ar yr un diwrnod, cwblhawyd trafodiad, neu werthiant, safle Ferry Road, a olygai fod cyngor Caerdydd i fod i dalu £5.95 miliwn. Felly, fel y

So, as the Permanent Secretary said, for simple administrative reasons, it made sense to net one figure off against the other.

[118] **Alun Cairns:** May I underline what my reading of the situation is, which is that, having received £6.1 million for other regeneration, which we have already explored, and a £2 million discount for the transfer of the land at Ferry Road, Cardiff had an £8.1 million benefit? However, it also potentially cost—I add the word ‘potentially’—the sum of £850,000 in interest to the Assembly. Is that a fair summary?

Mr Shortridge: I think that the Auditor General’s next report will reveal the extent to which there has been a loss, or an implied loss, of £850,000. I will not go further this afternoon than to say that I think that it is possible that it will be less than that.

[119] **Alun Cairns:** I draw your attention to paragraphs 73 to 74. Are you satisfied that the assurances built into the contract covering the sale of the Ferry Road site, adequately protect the Assembly’s interests?

Mr Shortridge: Yes, in the sense that, as paragraph 74 indicates, the £2 million discount is repayable if the sports village does not go ahead. We have a 10-year overage clause, which ensures that there will be a clawback of 30 per cent of any profit from the sale of the land if it takes place within 10 years. Conventionally, overage clauses only run for five years; in this case it runs for 10 years. So I think that, in the circumstances, we did as much as we could have done, in a complex negotiation, to protect the Assembly’s interests.

[120] **Alun Cairns:** To clarify the situation, if the land is sold on for development to a private developer within a 10-year period, 40 per cent of the profit goes to Cardiff council?

Mr Shortridge: Yes. That is right.

[121] **Alun Cairns:** So having acquired a parcel of land at a £2 million discount, if it chose the following day to sell that land on,

dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol, am resymau gweinyddol syml, yr oedd yn gwneud synnwyr gosod un ffigur yn erbyn y llall.

[118] **Alun Cairns:** A gaf fi danlinellu fy nealltwriaeth i o’r sefyllfa, sef, ar ôl derbyn £6.1 miliwn ar gyfer gwaith adfywio arall, yr ydym eisoes wedi ymchwilio iddo, a disgownt o £2 filiwn ar drosglwyddiad y tir yn Ferry Road, bod Caerdydd ar ei hennill o £8.1 miliwn? Fodd bynnag, yr oedd cost botensial hefyd—ychwanegaf y gair ‘potensial’—o swm o £850,000 mewn llog i’r Cynulliad. A ydyw hynny’n grynodeb deg?

Mr Shortridge: Yr wyf yn meddwl y bydd adroddiad nesaf yr Archwilydd Cyffredinol yn datgelu i ba raddau y bu colled, neu golled ymhlyg, o £850,000. Nid af ymhellach y prynhawn yma na dweud fy mod yn meddwl ei bod yn bosibl y bydd yn llai na hynny.

[119] **Alun Cairns:** Tynnaf eich sylw at baragraffau 73 i 74. A ydych yn fodlon fod y sicrwydd sydd wedi’i gynnwys yn y contract parthed gwerthiant safle Ferry Road yn gwarchod buddiannau’r Cynulliad yn ddigonol?

Mr Shortridge: Ydwyf, yn yr ystyr fod, fel y noda paragraff 74, y disgownt £2 filiwn i’w ad-dalu os nad aiff y pentref chwaraeon yn ei flaen. Mae gennym gymal gwarged 10 mlynedd, sydd yn sicrhau y gellir adfachu 30 y cant o unrhyw elw o werthu’r tir os gwneir hynny o fewn 10 mlynedd. Yn gonfensiynol, dim ond am bum mlynedd y bydd cymalau gwarged yn rhedeg; yn yr achos hwn mae’n rhedeg am 10 mlynedd. Felly yr wyf o’r farn, dan yr amgylchiadau, ein bod wedi gwneud yr hyn a allem, mewn proses negodi gymhleth, i warchod buddiannau’r Cynulliad.

[120] **Alun Cairns:** I egluro’r sefyllfa, os gwerthir y tir ymlaen i’w ddatblygu i ddatblygwr preifat o fewn cyfnod 10 mlynedd, bydd 40 y cant o’r elw’n mynd i gyngor Caerdydd?

Mr Shortridge: Ie. Dyna ni.

[121] **Alun Cairns:** Felly wedi sicrhau parcel o dir ar ddisgownt o £2 filiwn, pe bai’n penderfynu gwerthu’r tir yfory, gallai cyngor

Cardiff council could well receive 40 per cent of whatever sum is gained at the time, particularly given the way that development property has increased in value?

Mr Shortridge: Well, the first thing that would happen is that it would lose its £2 million discount. Secondly, this is a site that a development corporation had not been able to market successfully and sell. This is a very contaminated site, which does not obviously have a very substantial market value in the short term, although I acknowledge that special circumstances might arise where what you have indicated could happen.

[122] **Alun Cairns:** So Cardiff council could be in a very fortunate position should it decide to sell the land on. My final question is: who retains any profit from any subsequent sale of the land by Cardiff council if this sale takes place after 10 years has elapsed from the time when the council first acquired the land from the corporation? What is the position if the council elects to use the land for a purpose other than a sports complex, but retains ownership of it for at least 10 years?

Mr Shortridge: Under the overage clause, after 10 years, it will have the full rights.

[123] **Alun Cairns:** So there is potential for not only a 40 per cent profit, if they sell within 10 years, but the council could sit on the plot of land—its maintenance costs are probably negligible—and then receive 100 per cent of the profit after 10 years?

Mr Shortridge: If indeed there were profits after 10 years, yes.

[124] **Janet Davies:** We turn now to the decision that was reached to give the county council responsibility for the day-to-day management of the barrage and the bay. On the management of the barrage and the bay, can you summarise the process undertaken to reach this decision and the key factors that eventually determined it?

Mr Shortridge: The original position at March 1999 was that there would be a

Caerdydd yn hawdd dderbyn 40 y cant o ba swm bynnag a enillir ar y pryd, yn enwedig o gofio'r modd y mae eiddo datblygu wedi cynyddu o ran gwerth?

Mr Shortridge: Wel, y peth cyntaf fyddai'n digwydd yw y byddai'n colli ei ddisgownt o £2 filiwn. Yn ail, safle yw hwn nad oedd corfforaeth ddatblygu wedi gallu ei farchnata'n llwyddiannus a'i werthu. Mae hwn yn safle halogedig iawn, nad oes gwerth sylweddol iawn yn amlwg iddo ar y farchnad yn y tymor byr, er y cydnabyddaf y gallai amgylchiadau arbennig godi lle gallai'r hyn a amlinellwyd gennyh chi ddigwydd.

[122] **Alun Cairns:** Felly gallai cyngor Caerdydd fod mewn sefyllfa ffodus iawn pe bai'n penderfynu gwerthu'r tir ymlaen. Dyma fy nghwestiwn olaf: pwy sydd yn cadw unrhyw elw os gwerthir y tir gan gyngor Caerdydd os digwydd y gwerthiant hwn wedi i 10 mlynedd fynd heibio o'r adeg pan brynodd y cyngor y tir yn y lle cyntaf oddi wrth y gorfforaeth? Beth yw'r sefyllfa os penderfyna'r cyngor ddefnyddio'r tir i bwrpas ar wahân i bentref chwaraeon, ond ei fod yn cadw meddiant arno am o leiaf 10 mlynedd?

Mr Shortridge: Dan y cymal gwarged, caiff yr hawliau llawn wedi 10 mlynedd.

[123] **Alun Cairns:** Felly y mae potensial nid yn unig ar gyfer elw o 40 y cant, os gwerthant o fewn 10 mlynedd, ond gallai'r cyngor eistedd ar y llain o dir—mae'r costau cynnal yn nesaf peth i ddim, mae'n debyg—ac wedyn gael 100 y cant o'r elw ar ôl 10 mlynedd?

Mr Shortridge: Os yn wir y bydd elw wedi 10 mlynedd, oes.

[124] **Janet Davies:** Trown yn awr at y penderfyniad a wnaethpwyd i roi cyfrifoldeb i'r cyngor sir am reoli'r morglawdd a'r bae o ddydd i ddydd. Ar bwnc rheolaeth y morglawdd a'r bae, a allwch chi grynhoi'r broses a ddilynwyd i gyrraedd y penderfyniad hwn a'r ffactorau allweddol y tu ôl iddo yn y pen draw?

Mr Shortridge: Y sefyllfa wreiddiol ym Mawrth 1999 oedd y ceid awdurdod harbwr a

harbour authority that would manage the barrage and the bay. It was not absolutely clear at that time what form that harbour authority would take. It was also expected that there would be a facilities management contract in place to manage the barrage and the bay and that whatever organisation became the Harbour Authority would inherit that contract. In about August 1999, it became apparent that Cardiff council was beginning to change its position on the management of the bay. Up until that point, it had not wanted to take on the responsibilities for the barrage and the bay. I think that it just thought that it was too big a risk, too complicated and not something in which it would want to involve itself. Its position changed during the summer of 1999 and so negotiations took place with it on the possibility of it becoming the successor body. Latterly, in parallel with those negotiations, we, as Assembly officials, and also Assembly Ministers, were becoming concerned that the arrangements that were being put in place by the development corporation for the management of the barrage and the bay were not going to be completed satisfactorily by the wind-up date. So we then had two interlocking sets of concerns and negotiations. First, who would be the successor harbour authority and secondly, how were the barrage and the bay going to be properly prepared for fresh water impoundment and who was going to have responsibility for that. I will pause there and you can come back to that on supplementaries, Chair.

[125] **Janet Davies:** Are you satisfied that the successor arrangements will produce efficient management and represent good value for money?

Mr Shortridge: Sorry?

[126] **Janet Davies:** Having talked about the successor arrangements, do you think that what was eventually produced, that is, the council taking over as the Harbour Authority, will produce efficient management of the barrage and the bay and represent good value for money?

Mr Shortridge: Viewed from my perspective at the moment, I am generally

fyddai'n rheoli'r morglawdd a'r bae. Nid oedd yn hollol glir ar y pryd pa ffurf fyddai i'r awdurdod harbwr hwnnw. Disgwyliad hefyd y byddai contract rheoli cyfleusterau yn ei le ar gyfer rheoli'r morglawdd a'r bae ac y byddai pa gorff bynnag a ddeuai'n Awdurdod Harbwr yn etifeddu'r contract hwnnw. Oddeutu mis Awst 1999, daeth yn amlwg fod cyngor Caerdydd yn dechrau newid ei safbwynt ar reolaeth y bae. Hyd y pwynt hwnnw, nid oedd wedi dymuno ymgymryd â'r cyfrifoldebau am y morglawdd a'r bae. Mae'n debyg ei fod yn meddwl ei fod yn risg rhy fawr, yn rhy gymhleth ac nid yn rhywbeth y byddai'n dymuno ymhél ag ef. Newidiodd ei safbwynt yn ystod haf 1999 ac felly dechreuwyd negodi gydag ef ar y posibilrwydd mai'r cyngor fyddai'r corff olynol. Wedyn, ochr yn ochr â'r negodi hwnnw, yr oeddem ni, swyddogion y Cynulliad, a Gweinidogion y Cynulliad hefyd, yn dechrau pryderu na fyddai'r trefniadau yr oedd y gorfforaeth ddatblygu yn eu sefydlu ar gyfer rheoli'r morglawdd a'r bae wedi'u cwblhau'n foddhaol erbyn y dyddiad dirwyn i ben. Felly wedyn yr oedd gennym ddwy set gysylltiedig o bryderon a thrafodaethau. Yn gyntaf, pwy fyddai'r awdurdod harbwr olynol ac yn ail, sut yr oedd y morglawdd a'r bae'n mynd i gael eu paratoi'n iawn ar gyfer cronni dŵr croyw a phwy oedd yn mynd i fod yn gyfrifol am hynny. Oedaf yn y fan hon a chewch ddod yn ôl at hynny drwy gwestiynau atodol, Gadeirydd.

[125] **Janet Davies:** A ydych yn fodlon y bydd y trefniadau olynol'n sicrhau rheolaeth effeithlon ac yn cynrychioli gwerth da am arian?

Mr Shortridge: Mae'n ddrwg gennyf?

[126] **Janet Davies:** Wedi sôn am y trefniadau olynol, a ydych yn meddwl y bydd yr hyn a drefnwyd yn y diwedd, hynny yw, bod y cyngor yn cymryd yr awenau fel Awdurdod yr Harbwr, yn sicrhau rheolaeth effeithlon dros y morglawdd a'r bae ac yn cynrychioli gwerth da am arian?

Mr Shortridge: O edrych o'm safbwynt i ar y funud, yr wyf ar y cyfan yn fodlon am

satisfied about that. It will be a matter for the Auditor General's next report, so I will be interested to see what his conclusions will be. However, in terms of where we were in November 1999, when we had a whole series of really fundamentally important decisions to take, I am just very pleased and relieved that we took the decisions that we did. I think that if we had continued to go with the Thames Water contract and sought to have the dredging completed by March or April 2000, with a view to fresh water impoundment in March/April 2000, everything that we have seen since then indicates to me that that would not have happened satisfactorily and, quite possibly, significant sums of money would have been lost. That would have been partly because there would have been a facilities management contract with Thames Water, with no fresh water facilities to manage, and partly because substantial sums of money would have been paid out on dredging, of which some or all would have been nugatory because, given the continual flushing that had to take place over the subsequent year, the material dredged out of the bay would have been flowing back in again. When I say substantial sums of money, I think that the dredging contract at the time was estimated to be about £5 million.

[127] **Janet Davies:** Thank you. There is one small issue that I do not understand fully; I may have missed the nuances on it. In relation to the Thames Water contract, would it not have been possible to renegotiate it so that the dredging and the fresh water impoundment could have taken place later, as it did in the end? Why did the contract demand this by the end of March 2000?

Mr Shortridge: It was the intention of the development corporation at the time, and I quite understand it. Its big investment was to establish the barrage and the bay, and if it was going to be wound-up at the end of March 2000, it really wanted that flagship development to be fully operational. Therefore, it was very keen that it should happen. In order to ensure that it happened, it had gone through a tendering procedure that resulted in Thames Water being its preferred bidder for the facilities management and operation of the barrage and it was in the

hynny. Bydd yn fater i adroddiad nesaf yr Archwilydd Cyffredinol, felly bydd gennyf ddi-ddordeb mewn gweld beth fydd ei gasgliadau. Fodd bynnag, yn nhermau lle yr oeddem ym mis Tachwedd 1999, pan oedd gennym gyfres gyfan o benderfyniadau hollol sylfaenol bwysig i'w gwneud, yr wyf yn falch iawn inni wneud y penderfyniadau a wnaethom. Yr wyf yn meddwl pe baem wedi parhau â chontract Thames Water a cheisio cael cwblhau'r carthu erbyn Mawrth neu Ebrill 2000, gyda golwg ar gronni dŵr croyw ym Mawrth/Ebrill 2000, mae popeth yr ydym wedi'i weld ers hynny'n dweud wrthyf fi na fyddai hynny wedi digwydd yn foddhaol ac, o bosibl, y byddai symiau arwyddocaol o arian wedi'u colli. Byddai hynny wedi bod yn rhannol oherwydd y byddai contract rheoli cyfleusterau wedi bod gyda Thames Water, heb ddim cyfleusterau dŵr croyw i'w rheoli, ac yn rhannol oherwydd y byddid wedi talu symiau sylweddol o arian am waith carthu, a rhywfaint neu'r cyfan o'r gwaith hwnnw'n ddiwerth oherwydd, o ystyried y llifolchi parhaus y bu raid ei wneud dros y flwyddyn ganlynol, byddai'r deunydd a gâi ei garthu allan o'r bae yn llifo'n ôl i mewn eto. Pan ddywedaf symiau sylweddol o arian, yr wyf yn meddwl y cafwyd amcangyfrif o ryw £5 miliwn am y contract carthu ar y pryd.

[127] **Janet Davies:** Diolch. Y mae un mater bach nad wyf yn ei ddeall yn llawn; efallai fy mod wedi colli'r hyn sydd yn cael ei awgrymu. Yng nghyswllt contract Thames Water, oni fuasai'n bosibl ei ailnegodi fel y gallasai'r carthu a'r cronni dŵr croyw ddigwydd yn ddiweddarach, fel y gwnaeth yn y diwedd? Pam yr oedd y contract yn mynnu hyn erbyn diwedd Mawrth 2000?

Mr Shortridge: Dyna fwriad y gorfforaeth ddatblygu ar y pryd, ac yr wyf yn deall hynny'n iawn. Sefydlu'r morglawdd a'r bae oedd ei buddsoddiad mawr, ac os oedd i gael ei dirwyn i ben ar ddiwedd Mawrth 2000, yr oedd yn awyddus iawn i'r datblygiad arloesol hwnnw fod yn gwbl weithredol. Felly, yr oedd yn frwd iawn iddo ddigwydd. Er mwyn sicrhau y byddai'n digwydd, yr oedd wedi mynd drwy drefn dendro a sefydlodd Thames Water fel ei ddewis gynigiwr ar gyfer rheoli'r cyfleusterau a gweithredu'r morglawdd ac yr oedd yn y broses o sefydlu contract carthu.

process of putting a dredging contract in place. All that was in November 1999 and we only had three to four months to ensure that the dredging would be completed satisfactorily. In parallel with that, as I think that Members will remember, it became apparent that when they started to test the computer-operated sluice gates on the barrage, they had all sorts of problems. I think that we, as officials, and Ministers also, were not persuaded at the time that the barrage would be fit to operate in a freshwater environment by April 2000. So there were very serious operational considerations upon which judgments had to be made. Those judgments had a knock-on effect in terms of what should happen, if anything, on dredging and what should happen in terms of who should have responsibility for the management of the bay.

[128] **Janet Davies:** Yes, but why was it acceptable for Cardiff council to take over under these circumstances and not Thames Water?

Mr Shortridge: Thames Water was never going to be a successor body, it was going to be providing a contract service to whatever organisation became the successor body. We, as officials, were concerned at the prospective costs of the Thames Water contract. Those costs were much higher than we had expected. In parallel, Cardiff council was saying that if it was going to be the successor body having to manage this contract, it was not persuaded that the basic arrangements built into it were ones with which it was comfortable. The council thought that it could do it much more cheaply itself. As I think that the Committee knows, it has undertaken—and this is written into the section 165 agreements—to do it for £1 million per year less than the Thames Water contract proposed. Those were significant savings, which, in the end, I, as Accounting Officer, was persuaded would be achievable.

[129] **Alun Cairns:** Thames Water had gone through an 18-month, I think, European procurement procedure to become the preferred bidder. How could you satisfy yourself that within the relatively short period

